

Rhif: WG36130



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Fersiwn Ddrafft o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

Is-ddeddfwriaeth arfaethedig o dan Ddeddf Anghenion Dysgu
Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Dyddiad cyhoeddi: 10 Rhagfyr 2018
Camau gweithredu erbyn: Ymatebion erbyn 22 Mawrth 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Drafft y cod anghenion dysgu ychwanegol

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar God Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) drafft Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlys Addysg (Cymru) 2018 a'r rheoliadau cysylltiedig sydd mewn golwg.

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i gyrraedd erbyn **22 Mawrth 2019** ar yr hwyraf.

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

- Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad – Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft
- Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft
- Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbynn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya) diwygiedig drafft
- Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Fersiwn Pobl Ifanc
- Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Fersiwn Hawdd ei Darllen

Mae'r dogfennau uchod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau

Mae'r ddogfen hon a'r rhai a restrir uchod ar gael mewn print mawr, Braille ac ieithoedd eraill ar gais.

Manylion cyswllt

Am wybodaeth bellach:
Tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol
Is-adran Cefnogaeth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: SENreforms@gov.wales
Ffôn: 03000 251500



@WG_Education



Facebook/EducationWales

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'i weld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD,

CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan:

<https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Strwythur y ddogfen ymgynghori	2
Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad	2
Y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY	3
Rheoliadau arfaethedig	3
Camau nesaf	6
Rhan 1 o'r ymgynghoriad: Y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY	7
Pennod 1 - Cyflwyniad	7
Pennod 2 – Egwyddorion y Cod	11
Pennod 3 – Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc	11
Pennod 4 - Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrrff y GIG i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau	11
Pennod 5 – Dyletswydd i gadw llygad ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (ALP)	12
Pennod 6 – Cyngor a gwybodaeth	12
Pennod 7 – Y diffiniad o ADY a DDdY, nodi ADY a phenderfynu ar y DDdY sydd ei hangen	13
Penodau 8 i 12 – Dyletswyddau ar ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol	13
Pennod 13 – Cynnwys CDU	18
Pennod 14 – Cynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal	21
Pennod 15 – Dyletswyddau ar gyrrff iechyd a phersonau perthnasol eraill	21
Pennod 16 – Adolygu a diwygio CDU	24
Pennod 17 – Ailystyriaethau awdurdod lleol ac ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU	24
Pennod 18 – Cyfarfodydd am ADY a CDU	25
Pennod 19 – Cynllunio a chefnogi pontio	25
Pennod 20 – Trosglwyddo CDU	26
Pennod 21 – Rhoi'r gorau i gynnal CDU	27
Pennod 22 – Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw	28
Pennod 23 – Plant a phobl ifanc o dan amgylchiadau penodol	31
Pennod 24 – Rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol	31
Pennod 25 – Osgoi a datrys anghydfodau	32
Pennod 26 – Apelau a cheisiadau i'r Tribiwnlys	32
Pennod 27 – Cyfeillion achos ar gyfer plant â diffyg galluedd	33
Unrhyw sylwadau eraill	34
Rhan 2 yr ymgynghoriad: Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft	35
Rhan 3 yr ymgynghoriad: Fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Cydlynnydd ADY	41
Rhan 4 yr ymgynghoriad: Plant sy'n derbyn gofal	43
(a) Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud	44
(b) Pennod 14 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Cynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal	45
(c) Diwygiadau arfaethedig i'r Cod Rhan 6	46
Rhan 5 o'r ymgynghoriad: Effaith cynigion	48
Effaith ar y Gymraeg	48

Cyflwyniad

Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlys Addysg (Cymru) 2018 ('Deddf 2018'¹) gydsyniad brenhinol ym mis Ionawr 2018.

Mae Deddf 2018 yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ('ADY'). Bydd yn disodli deddfwriaeth gyfredol ar anghenion addysg arbennig ('AAA') ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anabledau dysgu ym maes addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae Deddf 2018, yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ar ADY ('y Cod ADY') ac mae'n darparu nifer o bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru.

Mae gan Ddeddf 2018 dri amcan trosfwaol, a'r bwriad y bydd y Cod ADY a'r rheoliadau arfaethedig yn cefnogi'r rhain hefyd. Dyma'r tri amcan:

- Fframwaith deddfwriaethol unedig sy'n cefnogi pob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu iau sydd ag ADY, a phobl ifanc ag ADY sydd yn yr ysgol neu mewn addysg bellach;
- Proses gydweithredol ac integredig o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
- System deg a thryloyw ar gyfer rhoi gwybodaeth a chynghor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, rheoliadau drafft yn ymwneud â Thriwlynlys Addysg Cymru a Chydlynwyr ADY, a'r bwriad polisi ar gyfer nifer o reoliadau arfaethedig eraill.

Yn ogystal, mae'n gofyn am farn ar ddiwygiadau arfaethedig i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') Cod Ymarfer Rhan 6 - Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya, sydd wedi'u gwneud yn bennaf mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY.

Mae Deddf 2018 yn ei gwneud hi'n ofynnol ymgynghori â'r bobl ganlynol ar ddrafft o'r Cod ADY:

- (a) pob awdurdod lleol yng Nghymru;
- (b) corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru;
- (c) corff llywodraethu pob sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru;
- (ch) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
- (d) Comisiynydd Plant Cymru;
- (dd) Comisiynydd y Gymraeg;
- (e) pwyllgor perthnasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd ag addysg plant a phobl ifanc yn rhan o'i gylch gwaith; ac
- (f) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru'n ei ystyried yn briodol.

¹ Trwy gydol y Cod ADY drafft, rydym yn cyfeirio at 'y Ddeddf' ond yn y ddogfen ymgynghori rydym yn cyfeirio at 'Ddeddf 2018' mewn perthynas â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnblys Addysg (Cymru) 2018 – y rheswm am hyn yw bod y ddogfen ymgynghori yn cynnwys ymgynghoriad sy'n ymwneud â Deddf arall hefyd – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu barn plant a phobl ifanc (bydd dogfen ymgynghori ar wahân ar eu cyfer); rhieni, ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc; ac unrhyw un arall sydd â buddiant.

Strwythur y ddogfen ymgynghori

Mae pum rhan i'r ddogfen ymgynghori:

1. Y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY;
2. Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft;
3. Rheoliadau Cydlynnydd ADY drafft;
4. Plant sy'n derbyn gofal; ac
5. Effaith cynigion.

Mae Rhan 1 o'r ddogfen ymgynghori yn ymwneud â'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, ac mae wedi ei strwythuro o amgylch penodau'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY (ac eithrio Pennod 14 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, sy'n cael sylw yn Rhan 4 y ddogfen ymgynghori).

Mae Rhan 2 o'r ddogfen ymgynghori'n ymwneud â'r rheoliadau drafft ar gyfansoddiad a gweithdrefnau Tribiwnlys Addysg Cymru a chyfeillion achos ar gyfer plant â diffyg gallu.

Mae Rhan 3 o'r ddogfen ymgynghori'n ymwneud â'r rheoliadau drafft ar gymwysterau, profiad a swyddogaethau Cydlynwyr ADY.

Mae Rhan 4 o'r ddogfen ymgynghori'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, yn cynnwys

- (a) cynigion ar gyfer rheoliadau ynghylch categorïau o blant sy'n derbyn gofal na fyddai'n cael eu trin fel plant sy'n derbyn gofal at ddibenion Deddf 2018 ac na fyddant yn cael cynllun addysg personol, a'r gofynion i awdurdodau lleol benodi Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal;
- (b) Pennod 14 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Cynnwys Cynllun Datblygu Personol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal; a
- (c) diwygiadau arfaethedig i God Ymarfer Rhan 6 Deddf 2014 – Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya.

Mae Rhan 5 o'r ddogfen ymgynghori yn ymwneud ag effaith y cynigion ar gyfer rheoliadau drafft, a'r goblygiadau ar gyfer y Gymraeg.

Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad

Gofynnir cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori hon sy'n cwmpasu ystod eang o faterion yn ymwneud â'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r rheoliadau arfaethedig. Mae yna ffurflen ymateb ar wahân, ond er hwylustod, mae'r cwestiynau sy'n berthnasol i bob rhan o'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn y manau perthnasol drwy'r ddogfen.

Atgoffir ymatebwyr mai dim ond i'r cwestiynau hynny yn yr ymgynghoriad sydd o ddiddordeb iddynt neu sy'n berthnasol iddynt y mae angen iddynt ymateb. Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi'r amser a dreulir a'r cyfraniadau gan bob un o'r rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd sy'n cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cymru a byddant yn cael eu defnyddio i fireinio a llywio'r Cod a'r rheoliadau terfynol.

Bydd gan y termau a ddefnyddir yn y ddogfen ymgynghori hon sydd wedi'u diffinio yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yr un ystyr ag sydd iddynt yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, oni nodir yn wahanol (er enghraifft, mae cyfeiriadau at ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach yn cyfeirio at eu cyrff llywodraethu gan amlaf – gweler paragraff 1.26 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY).

Y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY

Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddrafft cyntaf o'r Cod ADY fel atodiad i'r ymgynghoriad ar y 'Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)' (y Bil ADY). Cyflwynwyd drafft gwaith arall i Aelodau'r Cynulliad ym mis Chwefror 2017 i'w helpu i graffu ar y Bil ADY.

Mae'r drafft hwn o'r Cod ADY wedi cael ei ddatblygu'n sylweddol ers y drafftiau blaenorol hynny. Mae'n canolbwyntio ar ddisgrifio'r swyddogaethau a roddir i bersonau perthnasol² gan Ddeddf 2018 a'r rheini y bwriedir eu cynnwys yn y rheoliadau. At hynny, mae'r Cod ADY ei hun yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach ('SAB') yng Nghymru. Mae'n rhoi canllawiau ar weithredu'r swyddogaethau hyn hefyd.

Rheoliadau arfaethedig

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu arfer pwerau i wneud rheoliadau ar y materion canlynol, sy'n cael sylw ym mhenodau'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a/neu ddogfen ymgynghori fel y nodir yn y tabl isod:

Rheoliadau arfaethedig yn ymwneud â:	Pŵer i wneud rheoliadau:	Pennod berthnasol y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a/neu ran o'r ddogfen ymgynghori
Unedau Cyfeirio Disgyblion – dirprwyo cyfrifoldeb awdurdodau lleol dros gyrrff llywodraeth i bwyllgorau rheoli	Paragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996	Pennod 1 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Cyflwyniad
Penderfynu a oes angen cynllun datblygu unigol ('CDU' ar berson ifanc nad yw mewn ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru	Adran 46 o Ddeddf 2018	Pennod 12 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn

² Yn y Cod ADY, defnyddir "personau perthnasol" i gyfeirio at y cyrff a'r unigolion hynny y mae'n ofynnol iddynt o dan adran 4 o Ddeddf 2018 i ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf 2018.

		perthynas â phobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir neu AB
Amserlenni i gyrff y GIG ymateb i atgyfeiriad o ran a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd o ran mynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc	Adran 21(10) o Ddeddf 2018	Pennod 15 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Dyletswyddau ar gyrff iechyd a phersonau perthnasol eraill
Amserlenni ar gyfer cydymffurfio â dyletswydd i roi gwybodaeth neu help arall	Adran 65(5) o Ddeddf 2018	Pennod 15 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Dyletswyddau ar gyrff iechyd a phersonau perthnasol eraill
Trosglwyddo CDU	Adrannau 36(3) a 37 o Ddeddf 2018	Pennod 20 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Trosglwyddo CDU
Cyfnod ar gyfer gwneud cais i awdurdod lleol ailystyried penderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU	Adran 32(1)(b) o Ddeddf 2018	Pennod 21 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Rhoi'r gorau i gynnal CDU
Penderfynu nad oes angen cynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru	Adran 46 o Ddeddf 2018	Pennod 21 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Rhoi'r gorau i gynnal CDU
Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw: (a) Penderfynu a fydd angen cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc dan gadwad (b) Swyddogaethau sy'n berthnasol lle mae plentyn neu berson ifanc yn destun gorchmynion cadw ac yn cael ei gadw yn yr ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983	(a) Adran 46 o Ddeddf 2018 (b) Adran 45 o Ddeddf 2018	Pennod 22 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw
Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol	Adran 60(4) o Ddeddf 2018	Pennod 24 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Rôl y Cydlynnydd ADY
Tribiwnlys Addysg Cymru – gweithdrefnau a chyfansoddiad	Adrannau 74(1), 75(1), 75(2),	Pennod 26 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Apelau a

	75(4), 76(3), 77(1), 91(6) a 92(2) o Ddeddf 2018	cheisiadau i Dribiwnlys Addysg Cymru; Rhan 2 y ddogfen ymgyngori – rheoliadau drafft Tribiwnlys Addysg Cymru
Cyfeillion achos ar gyfer plant â diffyg gallu	Adran 85(8) o Ddeddf 2018	Pennod 27 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Cyfeillion achos ar gyfer plant â diffyg gallu; Rhan 2 y ddogfen ymgyngori - rheoliadau drafft Tribiwnlys Addysg Cymru
Categoriâu o blant sy'n derbyn gofal: (a) nad oes cynllun addysg personol yn mynd i gael ei ddatblygu ar ei gyfer (b) na fydd yn cael eu trin fel plant sy'n derbyn gofal at ddibenion Deddf 2018	(a) Adran 83(2B) o Ddeddf 2014 (b) Adran 15(2) o Ddeddf 2018	Rhan 4 y ddogfen ymgyngori – Plant sy'n derbyn gofal
Gofyniad ar awdurdodau lleol i benodi Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal	Adran 87 o Ddeddf 2014	Rhan 4 y ddogfen ymgyngori – Plant sy'n derbyn gofal

Mae Rhan 5 o'r ddogfen ymgynghori yn gwahodd sylwadau ar effaith bosibl y rheoliadau arfaethedig uchod.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu arfer pwerau eraill i wneud rheoliadau i weithredu Deddf 2018 (er enghraifft, y pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol). Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cyfeirio at y rheini sy'n cael sylw yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY.

Nid yw rheoliadau i'w gwneud o dan adran 83 o Ddeddf 2018 (i ddarparu ar gyfer rhieni a phobl ifanc sydd â diffyg gallu) wedi cael eu drafftio hyd yma. Nid yw'r Goruchaf Lys wedi cyhoeddi ei benderfyniad ar Re D (UK SC 2018/006) a glywyd ar 3 a 4 Hydref. Gallai canlyniad yr achos fod â goblygiadau ar bobl ifanc 16 ac 17 oed sydd â diffyg gallu a gweithredu Deddf Galluedd Meddyliol 2005 mewn perthynas â'r grŵp oedran hwn. Y bwriad yw drafftio rheoliadau adran 83 ac ymgynghori arnynt pan fydd modd pwysu a mesur y penderfyniad, yn ogystal ag unrhyw newidiadau perthnasol i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a allai fod wedi cael eu gwneud gan y Bil (Diwygio) Deddf Galluedd Meddyliol ar ei daith drwy Senedd San Steffan.

Camau nesaf

Y bwriad yw cyflwyno drafft terfynol y Cod ADY a'r rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn diwedd 2019, gyda'r nod y bydd darpariaethau Deddf 2018 a'r rheoliadau yn cychwyn o fis Medi 2020, gyda chyfnod gweithredu o dair blynedd cyn y byddant yn gymwys yn llawn.

Tan hynny, rhaid i awdurdodau lleol a chyirff llywodraethu ysgolion a gynhelir barhau i gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol presennol (yn enwedig y rheini o dan Ran 4 Deddf Addysg 1996 a'r rheoliadau a wneir oddi tani).

I wybod mwy am weithredu Deddf 2018, gweler: <https://beta.llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-anghenion-addysgol-arbennig>

Rhan 1 o'r ymgynghoriad: Y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY

Pennod 1 - Cyflwyniad

1.1 Mae Pennod 1 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn rhoi trosolwg bras o'r rheini sy'n gorfod arddel y canllawiau yn y Cod ADY, a chydymffurfio â'r gofynion a bennir ganddo, a sut dylid dehongli'r Cod ADY.

Ystyr 'rhaid', 'ni chaiff', 'gall', 'dylai' ac 'ni ddylai' yn y Cod ADY

1.2 Mae paragraffau 1.10 -1.16 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn egluro defnydd ac ystyr penodol y gwahanol dermau **rhaid**, **ni chaiff**, **gall**, **dylai** a **ni ddylai**, fel ag y maent yn ymddangos yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY. Yn arbennig, defnyddir 'rhaid' ac 'ni chaiff' i ddisgrifio gofynion yn Neddf 2018, gyda throednodyn yn rhoi ffynhonnell y gofyniad. Defnyddir "dylid" i ddynodi canllawiau statudol.

Cwestiwn 1. Ydy'r esboniad ym mharagraffau 1.10 -1.16 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY o ddefnydd ac ystyr y gwahanol dermau **rhaid, **ni chaiff**, **gall**, **dylai** ac **ni ddylai** yn glir?**

Amserlenni

1.3 Rhaid i'r dyletswyddau amrywiol a ddisgrifir yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY gael eu cwblhau o fewn cyfnod amser penodol. Mae paragraffau 1.30 - 1.36 o'r Cod ADY yn egluro sut i ddehongli'r amserlenni hynny a'r eithriad iddynt. Yn hytrach nag ailadrodd yr esboniad hwnnw bob tro y mae'r Cod yn gosod amserlen neu'n cyfeirio at amserlen ar gyfer gwneud rhywbeth, mae wedi'i chynnwys yn y Bennod hon (mae yna droednodyn yn croesgyfeirio ati ar gyfer pob amserlen yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY).

1.4 Mae pob un o'r amserlenni gofynnol sy'n ymddangos yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY wedi cael ei mynegi yn yr un ffordd neu ffordd debyg iawn. Dylai hyn hybu cysondeb yn y ffordd maent yn cael eu deall a'u cymhwyso gan wahanol bobl a chyrrff mewn gwahanol sefyllfaoedd.

1.5 Fel yr eglurir ym mharagraff 2.15 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, mae angen i'r amserlenni sydd mewn golwg ar gyfer cwblhau camau gweithredu ystyried yr amrywiaeth eang o amgylchiadau y byddant yn berthnasol iddynt. Yn y rhan fwyaf o achosion byddai'n bosibl ac yn rhesymol i'r person neu'r corff sy'n destun y ddyletswydd gydymffurfio â hi o fewn y cyfnod penodol perthnasol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, dylai person neu'r corff allu cydymffurfio'n gynt. Felly, mae'r gofynion o ran amserlenni yn darparu bod rhaid i'r person neu'r corff weithredu'n "brydlon". Nod hyn yw sicrhau bod y system newydd yn arwain at nodi ADY yn gynharach ac ymyriadau sy'n cael eu cynllunio a'u gweithredu mewn ffordd fwy amserol ac, felly, effeithiol.

1.6 Mae cyfnodau amser yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i'r digwyddiad ddigwydd. Mantais hyn yw y bydd y cyfnod amser yn aml yn gorffen yr un diwrnod o'r wythnos ag y digwyddodd y digwyddiad (er ni fyddai hyn yn wir bob tro ar gyfer cyfnodau amser o ddiwrnod ysgol neu ddiwrnodau yn ystod y tymor).

1.7 Mae gan bob gofyniad amserlen i gorff cyhoeddus wneud rhywbeth o fewn cyfnod sefydlog yr un eithriad cyffredinol i'r gofyniad i wneud y peth o fewn y cyfnod hwnnw (disgrifir yr eithriad hwn ym mharagraffau 1.33 - 1.35 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY). Unwaith eto, dylai hyn hybu cysondeb o ran dealltwriaeth a chymhwyso.

1.8 Wrth ddatblygu'r dull o weithredu amserlenni ar gyfer y system ADY, ystyriwyd darparu eithriadau mwy penodol ar gyfer pob amserlen arbennig, a allai fod yn debyg i rai o'r rhai yn y system AAA ar gyfer cwblhau asesiadau neu orffen datganiadau.³ Mae'r rhain yn cwmpasu os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol i gydymffurfio oherwydd amgylchiadau penodol iawn, yn cynnwys plentyn ddim yn cadw apwyntiad yn ystod y cyfnod neu'n absennol o ardal yr awdurdod am gyfnod penodol neu amgylchiadau personol eithriadol sy'n effeithio ar y plentyn neu ei riant yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, gallai dull o'r fath arwain at berygl o hepgor yn anfwriadol achosion eraill lle'r oedd hi'n amlwg nad oedd hi'n rhesymol cadw at yr amserlen ac y dylid cael eithriad. Yn ogystal, gallai rhestru eithriadau sy'n berthnasol o dan amgylchiadau penodol arwain at berygl bod yr eithriadau hynny'n cael eu defnyddio fel mater o drefn o dan yr amgylchiadau hynny, yn enwedig lle nad yw'r amgylchiadau hynny o reidrwydd yn gwneud cwblhau cam gweithredu arbennig yn anymarferol. O ystyried yr amrywiaeth eang o amgylchiadau y bydd y dyletswyddau yn Neddf 2018 yn berthnasol iddynt, byddai'n debygol o fod wedi arwain at restri go hir i geisio nodi'r holl sefyllfaoedd posibl. Gallai'r eithriadau fod ychydig yn wahanol yn dibynnu ar y ddyletswydd i'w chyflawni. Mae hyn yn debygol o fod yn eithriadol o gymhleth ac anodd ei gymhwyso.

1.9 I'r gwrthwyneb, dylai cael un eithriad fod yn llawer cliriach a hawdd ei ddeall a'i gymhwyso. Hefyd, mae'r eithriad cyffredinol i weld yn briodol i gwmpasu'r holl enghreifftiau arbennig o sefyllfaoedd lle na ddylai fod rhaid i'r unigolyn sy'n destun y ddyletswydd orfod cydymffurfio â hi. Ei fwriad yn unig yw cwmpasu achosion lle mae cydymffurfiaeth yn wirioneddol anymarferol oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y person neu'r corff y mae'r gofyniad amserlen yn berthnasol iddo.

1.10 Hyd yn oed lle mae'r eithriad i gwblhau'r cam gweithredu arbennig o fewn y cyfnod penodol yn berthnasol, mae'r ddyletswydd ar y corff cyhoeddus i gwblhau'r camau gweithredu yn *brydlon* yn berthnasol o hyd.

Cwestiwn 2. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau (hynny yw, gweithredu'n brydlon a, ph'un bynnag, o fewn cyfnod penodol), fel yr eglurir ym mharagraffau 1.31 - 1.32 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY?

³ Rheoliadau 12 ac 17 o Reoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002.

Cwestiwn 3. Ydy'r eithriad cyffredinol sy'n gymwys yn achos amserlenni, fel y'i disgrifir ym mharagraffau 1.33-1.35 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, yn briodol?

Strwythur y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY

1.11 Mae strwythur y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn cael ei egluro a'i amlinellu ym mharagraffau 1.73 – 1.100 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY. Fel yr eglura paragraff 1.73 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, mae'r prif ddyletswyddau a roddir ar ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol yn cael eu disgrifio mewn Penodau ar wahân yn unol ag amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc y mae dyletswydd iddo. Er bod hyn yn ychwanegu at hyd y Cod, bwriad hyn yw cynorthwyo'r cyrff hynny wrth leoli a deall y dyletswyddau a'r canllawiau sy'n berthnasol iddynt. Mae materion cysylltiedig eraill, sy'n fwy cyffredin i bob sefyllfa ar y cyfan, yn cael sylw yn eu Penodau eu hunain.

Cwestiwn 4. Ydy strwythur y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r modd mae'r Penodau wedi'u rhannu yn briodol, yn glir ac yn hawdd ei ddeall?

1.12 Mae'r Cod wedi'i ddrafftio fel ei fod yn canolbwyntio ar ddisgrifio ac egluro dyletswyddau a phrosesau sy'n rhai penodol i'r system ADY. Yn gyffredinol, nid yw'n darparu canllawiau manwl i ymarferwyr ar ddulliau arfer gorau a materion yn ymwneud ag arfer crebwyll proffesiynol, ac nid yw'n cynnwys astudiaethau achos. Trwy ganolbwyntio ar ddisgrifio ac egluro swyddogaethau a phrosesau, y nod yw rhoi eglurder ynghylch y materion hynny a hybu cydymffurfiaeth. Gallai darparu canllawiau mwy cyffredinol eu natur neu arfer gorau/astudiaethau achos greu risg o wneud y Cod yn llai eglur, ei wneud yn hirach a'i wneud yn anghyfredol yn gynt wrth i arferion esblygu.

Cwestiwn 5. Ydy ffocws y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar ddisgrifio ac egluro'r swyddogaethau a phrosesau yn briodol?

Unedau Cyfeirio Disgyblion

Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud	Pŵer i wneud rheoliadau
Unedau Cyfeirio Disgyblion - dirprwyo cyfrifoldeb awdurdodau lleol dros ddyletswyddau cyrff llywodraethu i bwyllgorau rheoli	Paragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996

1.13 Yn wahanol i ysgolion a gynhelir, nid oes gan Unedau Cyfeirio Disgyblion gyrrff llywodraethu. Mae cyfeiriadau mewn deddfwriaeth sylfaenol ar gyrrff llywodraethu yn achos Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cyfeirio at yr awdurdod lleol.⁴ Felly, yn achos disgyblion mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion, yr awdurdod lleol fyddai'n gyfrifol am gyflawni'r dyletswyddau ar gyrrff llywodraethu ysgolion yn Neddf 2018.

⁴ Paragraff 1 atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996.

1.14 Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol o dan Reoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc) (Cymru) 2014 ('Rheoliadau 2014') i sefydlu pwyllgor rheoli ar gyfer pob Uned Cyfeirio Disgyblion maent yn ei chynnal ac i ddirprwyo swyddogaethau penodol i'r pwyllgor hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig gwneud rheoliadau⁵ i'w gwneud hi'n ofynnol i awdurdod lleol ddirprwyo i bwyllgor rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion mae'n ei chynnal y swyddogaethau a roddir i gyrff llywodraethu Unedau Cyfeirio Disgyblion o dan Ddeddf 2018.

1.15 Nod y system a sefydlwyd gan Ddeddf 2018 yw sicrhau bod awdurdodau lleol ond yn uniongyrchol gyfrifol am CDU disgyblion mewn ysgolion a gynhelir sydd angen Cynllun Dysgu Ychwanegol sydd y tu hwnt i'r hyn sy'n rhesymol i ddisgwyl ysgol a gynhelir i'w darparu. Yn yr un modd, yr ysgol sy'n gwneud penderfyniadau ADY ar gyfer disgyblion ysgolion a gynhelir ar y cyfan, gyda dyletswydd ar awdurdodau lleol i'w hailystyried. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai hyn fod yn wir am ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion hefyd.

1.16 Felly byddai dyletswyddau Deddf 2018 a fyddai'n cael eu dirprwyo i bwyllgor rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion yn cynnwys dyletswyddau i benderfynu, lle mae'n dod i'w sylw neu'n ymddangos fel arall, os oes gan ddysgwr cofrestredig ADY⁶; dyletswyddau i baratoi, cynnal, adolygu a rhoi'r gorau i gynnal cynlluniau⁷; dyletswyddau i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau Cynllun Dysgu Ychwanegol neu helpu'r awdurdod lleol i wneud hynny⁸; a dyletswydd i ddynodi Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol⁹.

1.17 Yna byddai gan awdurdodau lleol ddyletswyddau i ailystyried penderfyniadau pwyllgorau rheoli ar ADY ac unrhyw CDU mae'n ei gynnal (yn hytrach nag ailystyried eu penderfyniadau eu hunain ac unrhyw CDU mae'n ei gynnal).¹⁰

1.18 Hefyd, byddai awdurdodau lleol yn cadw'u swyddogaethau o dan Ddeddf 2018 sy'n ymwneud â disgyblion ysgolion a gynhelir h.y. y swyddogaethau sydd ganddynt fel awdurdod lleol, yn hytrach na'r rheini fyddai ganddynt yn rhinwedd eu cyfrifoldeb am swyddogaethau corff llywodraethu Uned Cyfeirio Disgyblion (gweler Pennod 9 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY am ragor o wybodaeth am hyn).

1.19 Yng ngoleuni'r bwriad hwn, mae paragraffau 1.56 – 1.57 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn dweud bod dyletswyddau a chyfrifoldebau Unedau Cyfeirio Disgyblion mewn perthynas â'r Cod ADY a Deddf 2018 yr un fath â'r rhai ar ysgolion a gynhelir.

⁵ O dan baragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996.

⁶ Adran 11 o Ddeddf 2018 (gweler Pennod 9 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY)

⁷ Adrannau 12, 23 a 31 o Ddeddf 2018 (gweler Penodau 9, 15 ac 20 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY)

⁸ Adran 47 o Ddeddf 2018 (gweler Pennod 9 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY)

⁹ Adran 60 o Ddeddf 2018 (gweler Pennod 24 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY)

¹⁰ Gweler Pennod 17 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY am wybodaeth am ailystyriaethau gan awdurdodau lleol o benderfyniadau gan ysgolion a gynhelir ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, ailystyried CDU a gynhelir gan gorff llywodraethu, ac ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU a gynhelir gan gorff llywodraethu.

Cwestiwn 6. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddefnyddio rheoliadau i ddirprwyo swyddogaethau o awdurdod lleol i Bwyllgor Rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion?

Pennod 2 – Egwyddorion y Cod

1.20 Mae Pennod 2 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn amlinellu'r egwyddorion sy'n sail i'r system ADY, sy'n cael eu hadlewyrchu yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a Deddf 2018: dull gweithredu seiliedig ar hawliau; nodi ac ymyrryd yn gynnar a chynllun pontio effeithiol; cydweithio, addysg gynhwysol; a system ddwyieithog.

Cwestiwn 7. Ai'r egwyddorion a nodir ym Mhennod 2 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yw'r rhai cywir?

Pennod 3 – Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc

1.21 Pennod 3 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn egluro'r dyletswyddau ar bob sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf 2018 mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc i gynnwys a chefnogi'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc wrth arfer y swyddogaethau hynny.

Cwestiwn 8. Ydy'r esboniad o'r dyletswyddau'n ymwneud â chynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc a roddir ym Mhennod 3 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol?

Pennod 4 - Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

1.22 Mae Pennod 4 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn amlinellu'r dyletswyddau awdurdodau lleol a chyrff y GIG i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ddeddf 2018. Mae'n rhoi canllawiau ar y camau gweithredu y gallai awdurdodau lleol a chyrff y GIG ystyried eu cymryd wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn.

1.23 Mae Deddf 2018 yn caniatáu i'r Cod wneud darpariaeth yn amlinellu'r hyn sydd ei angen i gyflawni'r dyletswyddau i roi sylw dyledus a bydd y dyletswyddau hynny'n cael eu dehongli yn unol ag unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn y Cod.¹¹ Yn y cyswllt hwn, mae'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn darparu bod rhaid i'r corff hynny

¹¹ Adranau 7(4) ac 8(4) o Ddeddf 2018.

roi sylw dyledus i'r Confensiynau hynny wrth gynllunio arfer swyddogaethau'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc o dan Ddeddf 2018 ac yn rhoi enghreifftiau o weithgareddau o'r fath. Mae'n mynd ymlaen i egluro ystyr rhoi sylw dyledus.

Cwestiwn 9. Ydy Pennod 4 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir am y disgwyliadau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG wrth gyflawni eu dyletswyddau i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau?

Pennod 5 – Dyletswydd i gadw llygad ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (ALP)

1.24 Mae Pennod 5 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn amlinellu'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chadw llygad ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae'n rhoi cyngor a canllawiau ar yr hyn ddylai awdurdodau lleol ei ystyried neu'r hyn mae'n rhaid iddynt ei ystyried wrth gyflawni eu dyletswyddau.

1.25 Darperir y canllawiau a roddir yn y Bennod hon yng nghyd-destun cyfrifoldebau strategol ehangach awdurdodau lleol yn cynnwys, er enghraifft, o dan:

- Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mewn perthynas â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- Deddf 2014, mewn perthynas â chyd-asesu anghenion poblogaeth mewn ardal; a
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mewn perthynas â chryfhau cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

1.26 Bwriad darparu canllawiau yn y cyd-destun hwn yw lleihau biwrocratiaeth ddiangen a dod ag arferion at ei gilydd mewn ffordd ddefnyddiol a rhesymegol. Dylai hyn gyfrannu at gynllunio a chomisiynu darpariaeth yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY.

Cwestiwn 10. Ydy'r canllawiau a roddir ym Mhennod 5 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY mewn perthynas â'r dyletswyddau i gadw llygad ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn briodol?

Pennod 6 – Cyngor a gwybodaeth

1.27 Mae Pennod 6 y fersiwn ddrafft o'r Cod Adyn rhoi canllawiau ar ddyletswyddau awdurdodau lleol i wneud trefniadau i roi cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY. Mae'n cynnwys canllawiau ar rôl darparwyr gwasanaethau allanol ac ar gynnwys, hygyrchedd a chyhoeddi'r cyngor a'r wybodaeth sydd i'w rhoi gan awdurdodau lleol.

Cwestiwn 11. Ydy'r canllawiau a roddir ym Mhennod 6 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY mewn perthynas â gwneud trefniadau i roi cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY yn briodol?

Pennod 7 – Y diffiniad o ADY a DDdY, nodi ADY a phenderfynu ar y DDdY sydd ei hangen

1.28 Mae Pennod 7 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn berthnasol i bob ysgol a gynhelir, SAB ac awdurdodau lleol wrth wneud penderfyniadau am ADY. Mae'n amlinellu ystyr ADY a DDdY ac yn rhoi canllawiau mewn perthynas â nodi ADY a'r DDdY i ddiwallu ADY.

1.29 Mae paragraffau 7.4 – 7.32 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn egluro'r diffiniad o ADY.

Cwestiwn 12. Ydy'r esboniad hwn o ADY a roddir ym mharagraffau 7.4 – 7.32 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

1.30 Mae paragraffau 7.33 – 7.69 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn disgrifio'r dystiolaeth a ddylai fod yn sail i benderfyniadau am ADY a DDdY, o ba ffynonellau y gellid coladu'r dystiolaeth hon, a sut y dylid ei hystyried.

Cwestiwn 13. Ydy Pennod 7 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn rhoi esboniad clir a chynhwysfawr o'r dystiolaeth a ddylai fod yn sail i benderfyniadau am ADY a DDdY, o ba ffynonellau y gellid coladu'r dystiolaeth hon, a sut y dylid ei hystyried?

Penodau 8 i 12 – Dyletswyddau ar ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol

Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar

1.31 Mae Pennod 8 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn rhoi canllawiau ar ddyletswydd awdurdod lleol i ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Ddeddf 2018 mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Enw'r swyddog hwn yw Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar.

1.32 Ein hamcanion yw bod y rôl yn un strategol (gweler paragraff 8.42 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) a bod gan Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar y profiad a'r arbenigedd priodol i fodloni disgwyliadau'r rôl, sydd wedi'u nodi ym mharagraffau 8.40 – 8.41 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY.

Cwestiwn 14. Ydy'r canllawiau ar rôl, profiad ac arbenigedd y Swyddog Arweiniol ADY Blynyddoedd Cynnar a nodir ym mharagraffau 8.40 - 8.47 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol ar gyfer cyflawni'r amcanion (bod y rôl yn strategol a bod gan y cyfryw swyddogion y profiad a'r arbenigedd priodol i fodloni disgwyliadau'r rôl)?

Dyletswyddau ar ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol

1.33 Mae Penodau 8 i 12 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn ymdrin â'r dyletswyddau sy'n berthnasol i ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, paratoi a chynnal CDU a sicrhau DDdY. Mae pob pennod yn ymdrin â chategori gwahanol o blentyn a/neu berson ifanc, yn ôl eu hoed a lleoliad addysg. Mae'r penodau wedi'u rhannu fel hyn er mwyn galluogi ysgolion a SAB i nodi'n gyflym y dyletswyddau sy'n benodol iddynt neu yn achos awdurdod lleol, y dyletswyddau sy'n berthnasol i amgylchiadau achos penodol. Er enghraifft, os yw ysgol angen deall ei dyletswyddau mewn perthynas â disgybl a allai fod ag ADY, byddai pennod 9 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol am hyn. Yn yr un modd, os yw awdurdod lleol eisiau deall ei ddyletswyddau mewn perthynas â pherson ifanc nad yw'n cael addysg ond sydd ag ADY o bosibl, bydd y dyletswyddau sy'n berthnasol ym Mhennod 12 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY.

1.34 Ym Mhenodau 8 i 12 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, mae'r dyletswyddau i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, i baratoi CDU ac i gynnal CDU ar gyfer y person hwnnw ac, yn achos person ifanc nad yw mewn ysgol a gynhelir neu SAB, penderfynu a yw'n angenrheidiol paratoi a chynnal CDU, yn cael eu disgrifio yn y drefn y byddent yn gymwys fel rheol.

Cwestiwn 15. Ydy strwythur a chynnwys Penodau 8 i 12 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

1.35 Mae Penodau 8 i 11 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn pennu amserlenni y mae'n rhaid i ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol gadw atynt wrth wneud penderfyniad ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY a naill ai hysbysu am y penderfyniad nad oes ganddo ADY neu os mai'r penderfyniad yw bod ganddo ADY, paratoi CDU a rhoi copi ohono. Ym Mhennod 12 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, pennir amserlen gyfatebol, ond os mai'r penderfyniad yw bod gan y person ifanc ADY, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu hefyd a oes angen paratoi a chynnal CDU ac os yw'n penderfynu nad yw hynny'n angenrheidiol, hysbysu am y penderfyniad hwnnw. Dyma'r amserlenni sydd mewn golwg ar gyfer cwblhau'r camau hyn:

- yn achos ysgolion, 35 diwrnod ysgol¹²;
- yn achos SAB, 35 diwrnod tymor SAB (diwrnod tymor SAB yw diwrnod y

¹² Dyma ddiwrnodau y mae sesiwn ysgol yn yr ysgol honno, neu yn achos Uned Cyfeirio Disgyblion, diwrnodau pan mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn cyfarfod.

mae'r SAB i fod i gyfarfod at y diben o addysgu myfyrwyr, ar yr amod bod y diwrnod hwnnw o fewn cyfnod amser pan mae'r SAB yn darparu mwyafrif ei gyrsiau amser llawn);

- yn achos dyletswydd awdurdod lleol i ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o Ddeddf 2018, 7 wythnos;
- ym mhob achos arall awdurdod lleol, 12 wythnos.

1.36 Disgrifir amserlenni ar gyfer ysgolion a SAB yn nhermau diwrnodau tymor ysgol neu SAB yn hytrach nag wythnosau, i adlewyrchu'r ffaith bod y sefydliadau hyn ar gau ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau. Nid yw hyn yn wir yn yr un ffordd yn achos awdurdodau lleol, nad oes ganddynt gyfnod gwyliau penodol pan maent ar gau. Er bod awdurdodau lleol ar gau ar wyliau cyhoeddus, dylai'r cyfnod o 12 wythnos sydd mewn golwg ar eu cyfer fod yn ddigon i ganiatáu ar gyfer achosion o'r fath heb yr angen i roi eithriad penodol ar gyfer hyn.

1.37 Yn gyffredinol, mae amserlenni'n dechrau (oni nodir yn wahanol) o'r adeg y mae dyletswydd y corff cyfrifol yn y Ddeddf yn dechrau. Er enghraifft, yr adeg mae'n dod i sylw neu'n ymddangos fel arall i ysgol, SAB neu awdurdod lleol y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY fyddai'r man cychwyn ar gyfer yr amserlen a bennir ar gyfer cwblhau'r ddyletswydd i benderfynu ai dyna'r achos. Yr un modd, mae'r amserlen ar gyfer dyletswydd ailystyried awdurdod lleol o dan Adran 26 o Ddeddf 2018 yn dechrau o'r adeg y mae'r awdurdod lleol yn cael cais i ailystyried.

1.38 Yn achos atgyfeiriadau i awdurdod lleol (er enghraifft, atgyfeirio achos plentyn neu berson ifanc gan ysgol i awdurdod lleol lle'r mae'r ysgol o'r farn na fyddai'n rhesymol iddi sicrhau'r DDdY y gelwir amdani), ystyriwyd pennu mai man cychwyn yr amserlen fyddai'r adeg pan mae dyletswydd y corff cyntaf yn dechrau. Er y byddai hyn yn golygu bod rhaid rhoi'r CDU, os byddai angen un, ar waith hyn gyflymach, byddai'n golygu bod gan awdurdodau lleolai o amser i wneud penderfyniadau mewn achosion sy'n gymhleth yn ôl pob tebyg. Gallai achosi anawsterau hefyd mewn rhai achosion lle'r oedd y cyfnod yn union cyn yr atgyfeiriad yn gyfnod gwyliau i'r ysgol neu SAB (ac felly'n lleihau'r amser sydd gan awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r mater. Felly mae'r Cod drafft yn darparu bod yr amserlen yn rhedeg o'r atgyfeiriad. Er y gallai hyn olygu ei bod hi'n cymryd mwy o amser i CDU gael ei roi ar waith ar gyfer dysgwyr nad oedd eu hachos wedi cael ei atgyfeirio yn y cychwyn cyntaf, mae canllawiau statudol (ym mharagraffau 9.41 - 9.43 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) sydd â'r nod o sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn brydlon er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o oedi. Ymhellach, lle mae'r awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad neu'n paratoi CDU yn dilyn atgyfeiriad, byddai gan y plentyn, ei riant neu'r person ifanc hawliau i apelio mewn perthynas â hynny (ond yn achos penderfyniad ysgol, byddai'n rhaid i'w awdurdod lleol ei ailystyried yn gyntaf).

1.39 Yn olaf, lle mae awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd i ysgol baratoi CDU, mae'n rhaid i'r ysgol gadw at yr amserlen a oedd yn berthnasol i'r awdurdod lleol (gweler paragraffau 9.96 – 9.98).

1.40 Mae'r dyddiad cau o fewn 35 diwrnod ar gyfer ysgolion a SAB yn ystyried y camau sydd eu hangen er mwyn gorffen paratoi CDU. Mae tri cham sylfaenol:

- A) Hysbysu bod angen gwneud penderfyniad;
- B) Casglu tystiolaeth, a fydd fel arfer yn cynnwys cynnal cyfarfod gyda'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc; a
- C) Pharatoi a chyhoeddi CDU neu hysbysu nad oes gan y plentyn neu berson ifanc ADY

1.41 Mewn llawer o'r achosion hyn, bydd yr ysgol/SAB yn gallu nodi a diwallu'r ystod lawn o anghenion sydd gan y plentyn neu berson ifanc. Pe bai mewnbyn allanol yn ddefnyddiol ond nid yn hanfodol, byddai disgwyl i'r ysgol/SAB ofyn am y mewnbyn er mwyn paratoi CDU o fewn yr amserlen ofynnol, ond os nad yw hyn yn bosibl, dylid paratoi'r CDU erbyn y dyddiad gofynnol ar sail y wybodaeth sydd ar gael. Yna gall yr ysgol/SAB adolygu a diwygio'r CDU yn unol ag unrhyw wybodaeth sy'n dod i law wedi hynny.

1.42 Mewn nifer fach o achosion (er enghraifft, lle mae anghenion yn arbennig o gymhleth neu'n llai cyffredin), efallai na fydd y cyfnod o 35 diwrnod ar gyfer penderfyniad ysgol/SAB yn ddigon i gael yr holl fewnbyn allanol angenrheidiol – ond dyma'r achosion sy'n debygol o gael eu hatgyfeirio i'r awdurdod lleol.

1.43 Yn gyffredinol, byddai llunio cynllun yn cymryd mwy o amser na phenderfynu nad oes angen un. Fodd bynnag, os yw'r ddyletswydd i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY yn cael ei chychwyn, ond os penderfynir wedyn nad oes ganddo ADY, mae'r ystyriaethau'n debygol o fod yn eithaf cytbwys ac mae'n bosibl y bydd angen trafodaethau gofalus a hirfaith. Yn sgil hynny, credwn ei bod hi'n briodol gosod amserlen o 35 diwrnod ar gyfer y ddau ganlyniad. Byddai'r ddyletswydd i wneud y penderfyniad yn brydlon yn parhau i fod yn berthnasol i achosion nad ydynt yn gofyn am ystyriaethau mor hirfaith.

1.44 Mae'r amserlen 7 wythnos ar gyfer dyletswydd awdurdod lleol i ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o Ddeddf 2018 yn adlewyrchu'r ffaith bod penderfyniad wedi'i wneud yn barod (gan yr ysgol), felly byddai'r holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r ailystyriaeth wedi cael ei chasglu'n barod gan amlaf ac felly mae ar gael.

1.45 Byddai'r amserlen 12 wythnos ar gyfer awdurdodau lleol fel arfer yn rhoi mwy o amser iddynt wneud penderfyniadau a gweithredu na fyddai gan ysgol neu SAB mewn perthynas â'r un penderfyniadau neu gamau gweithredu. Mae'r amserlen estynedig hon yn adlewyrchu'r ffaith y byddai'r plant a phobl ifanc yn anorfod yn fwy tebygol o fod ag anghenion difrifol neu gymhleth, a byddai angen amser i bennu graddfa a natur yr anghenion hyn. Yn arbennig, byddai mewnbyn allanol gan asiantaethau eraill, neu fewnbyn mewnol gan weithwyr proffesiynol, fel seicolegwyr addysgol, naill ai'n fwy tebygol neu'n hanfodol.

1.46 Mae'r amserlenni o dan y system AAA yn hirach. Mae gan awdurdodau lleol chwe wythnos ar ôl atgyfeiriad i benderfynu a ddylid cynnal asesiad statudol, 10 wythnos arall i gynnal asesiad statudol a phenderfynu a ddylid rhoi datganiad, pythefnos i gyhoeddi datganiad arfaethedig neu hysbysu na fydd un yn cael ei roi, ac yna 8 wythnos i gwblhau datganiad. Felly, gall y broses gymryd hyd at 26

wythnos. Byddai'r amserlenni sydd mewn golwg ar gyfer CDU yn golygu, ar y cyfan, y byddai plant a phobl yn cael cynlluniau statudol a'r ddarpariaeth a nodir ynddynt yn gyflymach nag y byddent ar hyn o bryd ac y dylai hyn helpu i sicrhau nad oes yr un plentyn neu berson ifanc ag ADY yn mynd llawer hirach na thymor ysgol cyfan heb CDU ar ei gyfer (mae tymor ysgol yn para rhyw 13 wythnos gan amlaf).

Cwestiwn 16. Ydy'r amserlenni ar gyfer penderfyniadau gan ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol ar ADY a pharatoi CDU fel y'u nodir ym Mhenodau 8-12 yn briodol?

Penderfynu a yw'n 'angenrheidiol' i awdurdod lleol baratoi a chynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol a gynhelir neu SAB

Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud	Pŵer i wneud rheoliadau
Penderfynu a yw CDU yn angenrheidiol ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru	Adran 46 o Ddeddf 2018

1.47 Yn achos pobl ifanc sydd ag ADY ond nad ydynt mewn ysgol neu SAB, rhaid i awdurdodau lleol o dan adran 14(1)(c)(ii) o Ddeddf 2018 benderfynu yn unol â rheoliadau i'w gwneud o dan adran 46 o Ddeddf 2018 a yw'n angenrheidiol paratoi a chynnal CDU ar gyfer y person ifanc i ddiwallu ei anghenion rhesymol am addysg a hyfforddiant.

1.48 Mae'r hawliadau o dan Ddeddf 2018 yn berthnasol i ddysgwyr hyd at 25 oed. Serch hynny, nid yw Ddeddf 2018 yn rhoi hawl i bobl ifanc ag ADY gael addysg hyd at yr oedran hwnnw. Yn hytrach, y nod yw darparu mynediad at addysg bellach a hyfforddiant ar sail gyfartal â phobl heb ADY. Felly ni ddylai pob person ifanc ag ADY fod â hawl awtomatig i gael CDU.

1.49 Y bwriad yw y bydd y rheoliadau'n nodi materion sy'n berthnasol pan fydd awdurdod lleol yn ystyried pa anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant sydd gan y person ifanc, os o gwbl. Y bwriad yw eu bod yn canolbwyntio at nodi a oes tebygolrwydd realistig y gallai'r person ifanc gyflawni amcan dymunol o fewn cyfnod amser rhesymol drwy gwblhau cwrs addysg neu hyfforddiant.

1.50 Mae'r Cod ADY drafft yn mynd i'r afael hefyd â materion cysylltiedig y dylid eu hystyried, er enghraifft, wrth bennu beth sy'n gyfnod rhesymol y gellid disgwyl i berson ifanc gyflawni'r amcan dymunol drwy gwblhau cwrs addysg neu hyfforddiant oddi fewn iddo (gweler paragraff 12.27 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY).

1.51 Bydd y rheoliadau'n ymdrin hefyd â phryd mae'n angenrheidiol i awdurdod lleol baratoi a chynnal CDU ar gyfer person ifanc sydd ag angen rhesymol am addysg neu hyfforddiant. Mewn achosion lle gallai person ifanc ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant mewn SAB neu ysgol a gynhelir yng Nghymru ac y byddai'r ysgol neu SAB yn gallu diwallu anghenion y person ifanc yn rhesymol, ni fyddai'n angenrheidiol i awdurdod lleol baratoi a chynnal CDU. Yn hytrach, y bwriad polisi yw y byddai'n angenrheidiol i awdurdod lleol baratoi a chynnal CDU o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- os mai'r unig ffordd o ddiwallu anghenion rhesymol person ifanc am DDdY yw lleoliad arbenigol neu ddarpariaeth llety, er enghraifft, lleoliad mewn sefydliad ôl 16 arbennig annibynnol;
- gallai person ifanc ag ADY lefel uchel/cymhleth fynychu SAB neu ysgol a gynhelir yng Nghymru ond dim ond gyda CDU sy'n cael ei gynnal gan awdurdod lleol oherwydd ni fyddai'n rhesymol i'r SAB sicrhau'r holl DDdY; ac
- mae person yn mynychu (neu'n mynd i fynychu) ysgol a gynhelir neu Academi neu SAB yn Lloegr ac mae natur ei ADY yn golygu na fyddai'r sefydliadau hynny yn gallu darparu'r DDdY sydd ei hangen arno.

1.52 Mae paragraffau 12.23 – 12.51 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn adlewyrchu'r hyn rydym yn bwriadu darparu ar ei gyfer yn y rheoliadau a chwmpasu materion a phrosesau.

Cwestiwn 17. Ydy'r gofynion a chanllawiau arfaethedig ym mharagraffau 12.22 – 12.51 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ynghylch pryd mae'n angenrheidiol i awdurdod lleol gynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol neu SAB yng Nghymru yn briodol?

Pennod 13 – Cynnwys CDU

1.53 Mae Pennod 13 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn ymdrin â chynnwys gorfodol CDU, yn cynnwys y ffurflen safonol orfodol ar gyfer CDU (mewn perthynas â phlant nad ydynt yn derbyn gofal ac â phobl ifanc), ac mae'n rhoi canllawiau ar y cynnwys a'r ffurf.

1.54 Rhaid i'r Cod ADY gynnwys un neu fwy o ffurflenni safonol safonol a phennu gofyniad i ddefnyddio'r ffurflen safonol briodol.¹³ Mae'r rhesymau dros gael ffurflen safonol i'w gweld ym mharagraff 13.4 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY (yn yr hanfod, gwella cysondeb a gwneud y system ADY yn fwy effeithlon, yn cynnwys ble mae cynlluniau'n cael eu trosglwyddo). Bydd gofyn i bob CDU gynnwys yr un adrannau ac isadrannau wedi'u rhifo a rhaid i'r rhain fod yn yr un drefn. Heblaw am hynny, mae yna hyblygrwydd i gyrff gynnal CDU yn eu harddull eu hunain (e.e. ychwanegu adrannau ychwanegol, logos, defnyddio ffont gwahanol ac ati).

1.55 Mae cael ffurflen safonol yn gallu cynorthwyo plant, eu rhieni a chyfeillion achos, a phobl ifanc i ddeall y system a'u hawliau o dan y system. I'r perwyl hwn, mae'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn darparu y dylai'r adrannau hynny sydd â hawliau apelio yn gysylltiedig â nhw gael eu nodi mewn rhyw ffordd i wneud hynny'n glir.

1.56 Mae cael cyn lleied â phosibl o ffurfiau safonol yn debygol o sicrhau'r manteision mwyaf yn ein tyb ni. Mae'n golygu na fydd angen cwblhau rhai o'r adrannau ar gyfer rhai plant a phobl ifanc, er enghraifft, mae isadrannau ar gyfer pobl ifanc yn unig ac mae adran 2D yn berthnasol i CDU a gynhelir gan

¹³ Adran 4(6)(c) y Ddeddf.

awdurdodau lleol yn unig. Fodd bynnag, wrth i blant fynd ymlaen i fod yn bobl ifanc a CDU a gynhelir gan ysgol yn cael ei drosglwyddo i awdurdod lleol, cael un ffurflen waeth a yw ar gyfer plentyn neu berson ifanc neu waeth a yw'n cael ei gynnal gan ysgol, SAB neu awdurdod lleol yw'r dull mwyaf effeithlon yn ein tyb ni. Fodd bynnag, mae ffurflen safonol ar wahân ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ac mae'r rhesymau am hynny'n cael eu trafod isod. Er ei bod yn ffurflen ar wahân, mae'n cyd-fynd i raddau helaeth â'r un ar gyfer plant a phobl ifanc eraill (er enghraifft, mae rhifau'r adrannau yr un fath).

1.57 Mae'r cynnwys gorfodol ar gyfer CDU yn adlewyrchu darpariaethau Deddf 2018 – yn cynnwys disgrifiad o ADY person a'r DDdY y mae anhawster neu anabledd dysgu'r person yn galw amdano, a materion eraill (fel y nodir yn y bennod) mewn perthynas â pha apelau y gellir eu gwneud.

1.58 Mae'r cynnwys gorfodol sydd mewn golwg yn cynnwys elfennau sy'n ofynnol gan y Cod ADY hefyd, er mwyn darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi a chynnal y CDU, a hyrwyddo a hwyluso dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ddatblygu'r CDU. Mae'r elfennau sy'n ofynnol o dan y Cod ADY, sy'n ychwanegol at yr elfennau hynny sy'n ofynnol dan y Ddeddf (gweler Atodiad A a Phennod 13 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY i gael manylion yr hyn sydd i'w gynnwys ym mhob adran) are:

- Adran IA: Gwybodaeth fywgraffiadol sylfaenol am y plentyn neu berson ifanc a manylion cyswllt
- Adran 1B: Cyfrifoldeb dros y CDU
- Adran 1C: Proffil un dudalen
- Adran 2B.2) manylion unrhyw ddatgymhwyso neu addasiadau mewn perthynas â'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- Adran 3A: Cofnod o wybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU
- Adran 3B: Llinell amser o ddiwyddiadau allweddol
- Adran 3C: Trosglwyddo

1.59 Mae'r ffurflen sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad A y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn adlewyrchu'r penawdau a chynnwys gorfodol a nodir ym Mhennod 13 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY. Mae paragraff 13.7 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn nodi bod modd addasu arddull y ffurflen honno a sut caiff gwybodaeth ei chyflwyno yn yr adrannau ac isadrannau i weddu i ddewisiadau lleol neu ddewisiadau'r plentyn neu berson ifanc. Mae paragraff 13.8 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn nodi y gall y corff sy'n paratoi neu'n adolygu CDU gynnwys adrannau pellach os yw'n credu bod hynny'n briodol.

Cwestiwn 18 Ydy elfennau cynnwys gorfodol CDU sy'n ofynnol o dan y Cod ADY yn briodol?

Cwestiwn 19. Ydy'r ffurflen safonol orfodol sydd mewn golwg ar gyfer CDU (wedi'i chynnwys yn Atodiad A y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

Cwestiwn 20. Ydy'r canllawiau ym Mhennod 13 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

Cludiant

1.60 Mae paragraffau 13.74 - 13.76 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn ymdrin â materion cludiant sy'n gysylltiedig â pharatoi CDU.

1.61 Mae'r swyddogaethau'n ymwneud â darparu cludiant i ddysgwyr i'w gweld ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ('y Mesur'). Mae adran 15(1) y Mesur yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion a SAB, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur, roi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru - mae'r rhain i'w gweld yn *Teithio gan Ddysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014* ('y Canllawiau') ar hyn o bryd.

1.62 Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi ymrwymo Llywodraeth Cymru i adolygu'r Canllawiau yng ngoleuni Deddf 2018 ac mae'r gwaith hwn ar y gweill fel rhan o broses ehangach i ailwampio'r Canllawiau, a fydd yn destun ymgynghoriad ffurfiol maes o law. Bydd y canllawiau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi cyn gweithredu Deddf 2018.

1.63 Rydym yn bwriadu cynnwys yn y Canllawiau y materion mae rhaid i awdurdod lleol roi sylw dyledus iddynt wrth arfer ei bŵer yn ôl disgrisiwn i ddarparu cludiant i ddysgwyr fel a ganlyn.

1.64 Mae adran 6 y Mesur yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol wneud trefniadau teithio i hwyluso presenoldeb unrhyw ddysgwr (yn cynnwys y rheini sy'n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol) yn y lleoliad lle mae'r person hwnnw'n derbyn addysg neu hyfforddiant.

1.65 Gall awdurdod lleol ddefnyddio'r pŵer hwn i roi cludiant am ddim neu gludiant â chymorth, os yw'n meddwl bod y ddarpariaeth yn briodol i hwyluso cludo dysgwr i leoliad lle mae'r dysgwr hwnnw'n derbyn addysg neu hyfforddiant.

1.66 Mae adran 2 y Mesur yn gofyn i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio yn eu hardal bob blwyddyn (ar gyfer dysgwyr hyd at 19 oed, a'r rheini sydd dros 19 oed ond a oedd wedi dechrau cwrs addysg neu hyfforddiant cyn troi'n 19 ac sy'n parhau i fynychu'r cwrs hwnnw). Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw yn arbennig i'r materion a restrir isod.

- (a) anghenion dysgwyr sy'n bobl anabl,
- (b) anghenion dysgwyr ag anawsterau dysgu,
- (c) anghenion dysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal, neu a oedd arfer derbyn gofal, gan yr awdurdod lleol,
- (d) oedran dysgwyr, a
- (e) natur y llwybrau y gallai fod yn rhesymol disgwyl i ddysgwyr eu cymryd i'r manau perthnasol lle maent yn derbyn addysg neu hyfforddiant.

1.67 Rydym yn bwriadu cyfeirio'n benodol at y materion hyn yn y Canllawiau fel ffactorau y gallai awdurdod lleol ddewis eu hystyried wrth benderfynu a yw am arfer ei bŵer i wneud trefniadau teithio o dan adran 6 ar gyfer unrhyw ddysgwyr sydd fel arfer yn breswylwyr yn eu hardal.

1.68 Hefyd, hoffem ddiwygio'r Canllawiau i gynnwys yn benodol ddysgwyr nad ydynt o oedran ysgol gorfodol sy'n bobl anabl neu sydd ag anawsterau dysgu sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr o enghreifftiau o'r adegau y gellid arfer disgrisiwn i ddarparu cludiant.

Cwestiwn 21. Ydy'r canllawiau ar gludiant ym mharagraffau 13.74 - 13.76 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol?

Pennod 14 – Cynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal

1.69 Am wybodaeth a'r cwestiwn ymgynghori ar gyfer Pennod 14 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, trowch at Ran 4 o'r ddogfen ymgynghori ar blant sy'n derbyn gofal.

Pennod 15 – Dyletswyddau ar gyrf iechyd a phersonau perthnasol eraill

1.70 Mae Pennod 15 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn amlinellu'r dyletswyddau a roddir ar gyrf iechyd a phersonau perthnasol eraill o dan Ddeddf 2018. Mae'n rhoi canllawiau hefyd ar rôl Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) mewn byrddau iechyd lleol a sut gall cyrf iechyd helpu i nodi a thrin plant a phobl ifanc ag ADY.

Ceisiadau statudol gan awdurdodau lleol i bersonau perthnasol am wybodaeth neu help arall

Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud	Pŵer i wneud rheoliadau
Amserlenni ar gyfer gydymffurfio â dyletswydd i roi gwybodaeth neu help arall	Adran 65(5) o Ddeddf 2018

1.71 Mae paragraffau 15.6 – 15.15 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn ymdrin â'r ddyletswydd ar bersonau perthnasol i gydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth neu help arall.

1.72 Mae pŵer i ragnodi mewn rheoliadau cyfnod y mae'n rhaid i berson perthnasol gydymffurfio gyda chais o'r fath am wybodaeth neu help arall oddi fewn iddo. Gall y rheoliadau gynnwys eithriadau i'r gofyniad i gydymffurfio o fewn y cyfnod hwnnw hefyd.

1.73 Cynigir arfer y pŵer hwn i'w gwneud hi'n ofynnol i berson perthnasol gydymffurfio â chais yn brydlon ac o fewn cyfnod o 6 wythnos ta beth ar ôl i'r person gael y cais (bydd y cyfnod yn dechrau drannoeth i'r cais gael ei dderbyn - gweler paragraff 1.6 o'r ddogfen ymgynghori, uchod). Rydym o'r farn y dylai cyfnod o 6 wythnos roi digon o amser i fynd i'r afael â cheisiadau mwy cymhleth a'i fod yn briodol yng nghyd-destun yr amserlenni sydd mewn golwg ar gyfer penderfyniadau ynghylch a oes gan berson ADY, a pharatoi ac adolygu CDU (gweler paragraffau

1.3 i 1.10 y ddogfen ymgynghori, uchod). Mae'n adlewyrchu hefyd y trefniadau cyfredol o dan y system AAA i awdurdod iechyd roi cyngor meddygol i awdurdod lleol at y diben o wneud asesiad.¹⁴ Fodd bynnag, mae rhoi dyletswydd ar bob person perthnasol yn hytrach na chyrrff iechyd yn unig i roi cyngor i awdurdod lleol yn adlewyrchu'r angen am bartneriaeth aml-asiantaeth wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY. Gan fod modd ymdrin â rhai ceisiadau yn gyflym iawn, credwn ei bod hi'n briodol cael gofyniad i gydymffurfio â'r cais yn brydlon fel nad yw personau perthnasol yn gohirio cydymffurfio tan ddiwedd y 6 wythnos yn ddiangen.

1.74 Cynigir hefyd i ddarparu ar gyfer yr eithriadau canlynol i'r ddyletswydd i gydymffurfio o fewn y cyfnod hwnnw o 6 wythnos:

- os nad yw'r cais yn ymwneud ag arfer swyddogaeth mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc. Mae hyn oherwydd mae'n bosibl nad yw ceisiadau am wybodaeth neu help arall yn ymwneud ag unigolyn penodol ac os felly, efallai nad ydynt mor ddybryd eu natur. Mae paragraff 15.13 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn cynnwys enghreifftiau o geisiadau posibl.
- os nad yw'n ymarferol i'r person perthnasol gydymffurfio â'r cais o fewn y cyfnod hwnnw oherwydd rhesymau y tu hwnt i'w reolaeth (gweler paragraffau 1.7 i 1.10 y ddogfen ymgynghori, uchod, am yr eithriad hwn).

1.75 Yn y ddwy sefyllfa hyn, byddai gofyniad o hyd i gydymffurfio â'r cais yn brydlon.

1.76 Nod y canllawiau ym mharagraff 15.14 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yw helpu personau perthnasol i gydymffurfio â'u dyletswyddau mewn perthynas â cheisiadau o'r fath.

Cwestiwn 22. Ydy'r amserlen a'r eithriadau sydd mewn golwg yn achos personau perthnasol yn cydymffurfio â chais awdurdod lleol am wybodaeth neu help arall (o dan Adran 65 Deddf 2018) yn briodol?

DDdY i'w sicrhau gan gyrff y GIG

Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud	Pŵer i wneud rheoliadau
Amserlenni i gyrff y GIG ymateb i atgyfeiriad ynghylch a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc	Adran 21(10) o Ddeddf 2018

1.77 Mae Pennod 15 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn ymdrin hefyd ag atgyfeiriadau i gyrff y GIG ynghylch a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc. Rhaid i Weinidogion Cymru, mewn rheoliadau, bennu cyfnod y mae'n rhaid i gorff y GIG hysbysu'r corff sy'n atgyfeirio neu'r corff sy'n cynnal CDU ar gyfer y plentyn neu

¹⁴ Rheoliad 12(8) o Reoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002.

berson ifanc am ganlyniad ei ystyriaethau oddi fewn iddo. Gall Gweinidogion Cymru ddarparu ar gyfer eithriadau yn y rheoliadau hefyd.

1.78 Rydym yn cynnig ei gwneud hi'n ofynnol i gorff y GIG gydymffurfio â'r ddyletswydd hon yn brydlon a, sut bynnag, o fewn cyfnod o chwe wythnos ar ôl derbyn y cais.

1.79 Rydym wedi cynnwys 'yn brydlon' er mwyn sicrhau nad oes oedi diangen cyn ymateb, ac fel nad yw'r amserlen chwe wythnos yn cael ei ddefnyddio fel dyddiad targed ar gyfer anfon ymateb, os oes modd ei anfon yn gynt. Mae'r amserlenni o 6 wythnos yn cyd-fynd â'r dyddiad cau sydd wedi'i osod ar hyn o bryd ar gyfer awdurdodau iechyd i ymateb i gais am gyngor meddygol gan awdurdod lleol at y diben o wneud asesiad o dan y system AAA.¹⁵ Mae'r gofyniad hefyd yr un fath â'r un sy'n cael ei gynnig ar gyfer cydymffurfio â cheisiadau awdurdod lleol i bersonau perthnasol am wybodaeth neu help arall (gweler paragraffau 1.71 i 1.76 y ddogfen ymgynghori, uchod).

1.80 Rydym hefyd yn bwriadu darparu ar gyfer eithriad lle nad yw'n ymarferol i gorff y GIG gydymffurfio o fewn y cyfnod 6 wythnos oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth (gweler paragraff 1.74).

1.81 Er y gallai 6 wythnos fod yn anodd mewn rhai achosion, credwn fod y cyfnod arfaethedig o 6 wythnos ynghyd â'r eithriad yn arfaethedig yn briodol hefyd yng nghyd-destun yr amserlenni eraill a gynigir ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ADY a pharatoi ac adolygu CDU (gweler paragraffau 1.7 i 1.10 o'r ddogfen ymgynghori, uchod).

Cwestiwn 23. Ydy'r cyfnod a'r eithriad arfaethedig y mae'n rhaid i gorff y GIG hysbysu eraill am ganlyniad atgyfeiriad iddo (o dan Adran 20 o Ddeddf 2018) i nodi a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol yn briodol?

Y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ("SACDA")

1.82 Mae paragraffau 15.37 – 15.53 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn berthnasol i Fyrddau Iechyd Lleol ac yn rhoi canllawiau ar rôl y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg ("SACDA").

1.83 Ein hamcanion yw bod y rôl yn un strategol a bod gan SACDA lefel briodol o brofiad ac arbenigedd perthnasol er mwyn gallu cydlynu swyddogaethau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY.

Cwestiwn 24. Ydy'r canllawiau ar rôl, profiad ac arbenigedd y SACDA a nodir ym mharagraffau 15.37 – 15.53 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol ar gyfer cyflawni'r amcanion (bod y rôl yn un strategol a bod gan swyddogion o'r fath brofiad ac arbenigedd priodol)?

¹⁵ Rheoliad 12(8) o Reoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002.

Pennod 16 – Adolygu a diwygio CDU

1.84 Mae Pennod 16 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn ymdrin ag adolygu a diwygio CDU, yn cynnwys pryd mae'n rhaid a phryd dylid adolygu CDU.

Cwestiwn 25. Ydy cynnwys a strwythur Pennod 16 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

1.85 Mae'n rhaid i ysgol, SAB neu awdurdod lleol sy'n gorfod cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc adolygu'r CDU os yw'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn gwneud cais i'r perwyl hwnnw, oni'i fod yn ystyried nad oes angen ei adolygu. Mae paragraffau 16.18 – 16.19 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn ei gwneud hi'n ofynnol i adolygiadau o'r fath gael eu cwblhau'n brydlon a, sut bynnag, o fewn amserlen benodol, yn amodol ar yr eithriad. Mae'r amserlen 35 diwrnod yn achos ysgolion a SAB yn cyd-fynd â'r cyfnod amser sydd gan y cyrff hyn i baratoi CDU yn y lle cyntaf ac mae'n adlewyrchu'r ffaith y bydd adolygiad yn gofyn am yr un camau (e.e. hysbysiadau, trefnu a chynnal cyfarfod, diwygio'r CDU ac ati) ac yn gofyn am yr un faint o waith â pharatoi'r CDU yn y lle cyntaf o bosibl. Mae'r amserlen 7 wythnos sydd wedi'i phennu yn achos awdurdodau lleol yn fyrrach na'r amserlen 12 wythnos sydd wedi'i phennu ar eu cyfer i baratoi CDU yn y lle cyntaf oherwydd er bod y plant a'r bobl ifanc dan sylw yn debygol o fod ag anghenion difrifol a/neu gymhleth o hyd, byddai llai o angen am gyngor arbenigol wrth adolygu CDU o gymharu â'i baratoi yn y lle cyntaf.

1.86 Mae'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY hefyd yn cyflwyno gofyniad i gynnal adolygiad yn dilyn cais am adolygiad gan gorff y GIG o fewn yr un amserlenni (h.y. yn brydlon ond, sut bynnag, o fewn 35 diwrnod ysgol neu amser tymor ar gyfer CDU a gynhelir gan ysgol neu SAB a 7 wythnos ar gyfer un a gynhelir gan awdurdod lleol, yn amodol ar yr eithriad) – gweler paragraff 16.25 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY.

1.87 Credwn ei bod hi'n briodol pennu amserlenni ar gyfer cwblhau adolygiadau ar gais plentyn, ei riant neu berson ifanc neu gorff y GIG gyda'r nod o sicrhau bod adolygiadau o'r fath yn cael eu cynnal mewn modd amserol, ac felly, yn achos cais gan blentyn, ei riant neu berson ifanc, mae'r hawl i adolygu yn effeithiol.

Cwestiwn 26. Ydy'r cyfnod a'r eithriad arfaethedig ar gyfer cwblhau adolygiadau mewn ymateb i gais gan blentyn, ei riant, person ifanc neu gorff y GIG (a nodir ym mharagraff 16.18 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

Pennod 17 – Ailystyriaethau awdurdod lleol ac ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU

1.88 Pennod 17 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn ymdrin â dyletswyddau awdurdod lleol mewn perthynas ag ailystyried penderfyniad ysgol ynghylch a oes gan ddisgybl ADY, ailystyried CDU a gynhelir gan ysgol ar gyfer disgybl, ac ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU a gynhelir gan ysgol neu SAB ar gyfer disgybl neu fyfyrwr.

Cwestiwn 27. Ydy cynnwys a strwythur Pennod 17 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

1.89 Pan mae ysgol yn cynnal CDU ar gyfer disgybl, gall y plentyn, rhiant y plentyn, neu berson ifanc wneud cais i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu berson ifanc, neu yn achos plentyn neu berson ifanc sydd yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, ailystyried y CDU, gyda'r nod o'i ddiwygio. Mae paragraff 17.20 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn nodi amserlen 7 wythnos ar gyfer cwblhau ailystyriaethau o'r fath.

1.90 Mae'n ymddangos mai dyma'r cyfnod lleiaf o amser sy'n rhesymol i'w bennu ar gyfer ailystyriaeth sy'n arwain at CDU diwygiedig, gan ystyried y ffaith y bydd angen i'r awdurdod lleol gael y dystiolaeth, y wybodaeth a'r sylwadau angenrheidiol gan yr ysgol, adolygu'r dystiolaeth honno, cyfarfod gyda'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc o bosibl, dod i gasgliad am y cynllun, a pharatoi a chyhoeddi cynllun diwygiedig o bosibl. Mae'n debyg i'w amserlen sydd gan ysgolion i baratoi CDU. Mae'n llai na'r cyfnod 12 wythnos sydd gan awdurdod lleol i baratoi CDU, ond nid fyddai'r cyfnod hwy hwnnw yn briodol o ystyried bod yr achosion hyn yn debygol ar y cyfan o ymwneud ag anghenion lefel is neu lai cymhleth ac o ystyried mai rôl yr awdurdod lleol yw ailystyried.

1.91 Hefyd, mae'r un fath â'r cyfnod sydd gan awdurdod lleol i ailystyried penderfyniad ysgol ynghylch a oes gan ddisgybl ADY (gweler paragraff 1.44 y ddogfen ymgynghori, uchod).

Cwestiwn 28. Ydy'r cyfnod a'r eithriad arfaethedig ar gyfer awdurdod lleol sy'n ailystyried CDU ysgol (a nodir ym mharagraff 17.20 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

Pennod 18 – Cyfarfodydd am ADY a CDU

1.92 Mae Pennod 18 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn nodi canllawiau ac egwyddorion arfer da ar gyfer cyfarfodydd am ADY a CDU. Mae egwyddorion cyffredinol y dylid eu dilyn ar gyfer pob cyfarfod a rhai prosesau sy'n ymwneud yn benodol â chyfarfodydd adolygu CDU neu gyfarfodydd i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY ai peidio.

Cwestiwn 29. Ydy'r egwyddorion a'r canllawiau a roddir ym Mhennod 18 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar gyfarfodydd am ADY a CDU yn briodol?

Pennod 19 – Cynllunio a chefnogi pontio

1.93 Mae Pennod 19 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn nodi'r trefniadau y dylid eu rhoi ar waith i sicrhau pontio effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY rhwng

gwahanol gyfnodau addysg, lleoliadau neu wasanaethau, yn cynnwys y defnydd o adolygiadau CDU i gynllunio trefniadau i gefnogi pontio hwylus.

Cwestiwn 30. Ydy'r canllawiau ym Mhennod 19 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar gynorthwyo plant a phobl ifanc gyda phontio effeithiol yn briodol?

Pennod 20 – Trosglwyddo CDU

1.94 Mae Pennod 20 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn ymdrin â throsglwyddo CDU o un ysgol a gynhelir, SAB neu awdurdod lleol i un arall o'r cyrff hynny, yn cynnwys rôl Gweinidogion Cymru wrth bennu a ddylai CDU gael ei drosglwyddo o awdurdod lleol i SAB.

Cwestiwn 31. Ydy cynnwys a strwythur Pennod 20 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud	Pŵer i wneud rheoliadau
Trosglwyddo CDU	Adran 36(3) o Ddeddf 2018 Adran 37 o Ddeddf 2018

1.95 Bydd rheoliadau i'w gwneud o dan adrannau 36(3) a 37 o Ddeddf 2018 yn nodi'r prosesau mewn cysylltiad â cheisiadau i drosglwyddo CDU o awdurdod lleol i SAB, atgyfeiriadau i Weinidogion Cymru am yr un mater, a phenderfyniadau yn yr achosion hyn gan Weinidogion Cymru. Mae paragraffau 20.12 i 20.17 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn disgrifio'r gofynion y mae disgwyl iddynt gael eu cynnwys yn y rheoliadau, yn cynnwys y cyfnod rhwng gwneud cais a phan mae awdurdod lleol yn gallu cyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru. Y cyfnod sydd mewn golwg ar gyfer hyn yw 20 diwrnod tymor. Y bwriad yw sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi digon o amser i'r SAB ystyried y mater yn briodol a datrys unrhyw broblemau gyda'r awdurdod lleol, a sicrhau hefyd fod y mater yn cael sylw prydlon, heb unrhyw oedi neu ansicrwydd diangen.

1.96 Cynigir rhoi amserlen i'r awdurdod lleol gyfeirio'r mater i Weinidogion Cymru hefyd, os nad yw SAB wedi cytuno i'r cais i ysgwyddo cyfrifoldeb am y CDU. Ystyriwn fod hyn yn well na'r dewis amgen o beidio â chael amserlen o'r fath oherwydd os yw atgyfeiriad yn mynd i gael ei wneud i Weinidogion Cymru, credwn y dylai ymwneud â chais diweddar i SAB ac nid un a allai fod wedi cael ei wneud gryn amser yn ôl a lle gallai amgylchiadau'r achos fod wedi newid yn sylweddol. Y bwriad hefyd yw y bydd rheoliadau i'w gwneud o dan adran 37 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â'r trosglwyddo dyletswyddau a nodir yn adran 35 o Ddeddf 2018 (ac a ddisgrifir ym mharagraffau 20.6 - 20.11 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY). Disgrifir y gofynion hyn ym mharagraffau 20.18 i 20.21 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY.

Cwestiwn 32. Ydy'r gofynion y bwriedir eu cynnwys mewn rheoliadau i drosglwyddo CDU i SAB (fel y'u disgrifir ym mharagraffau 20.12 - 20.17 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

Cwestiwn 33. Ydy'r trefniadau y bwriedir eu cynnwys yn y rheoliadau mewn perthynas â'r holl achosion eraill o drosglwyddo (fel y'u disgrifir ym mharagraffau 20.18–20.21 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

Pennod 21 – Rhoi'r gorau i gynnal CDU

1.97 Mae Pennod 21 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn disgrifio'r gwahanol amgylchiadau lle mae dyletswyddau i gynnal CDU yn dod i ben a'r camau sydd i'w cymryd cyn ac ar ôl y penderfyniad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY.

Cwestiwn 34. Ydy cynnwys a strwythur Pennod 21 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud	Pŵer i wneud rheoliadau
Penderfynu os nad yw'n angenrheidiol mwyach i gynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru	Adran 46 o Ddeddf 2018

1.98 Mae paragraffau 21.10 - 21.17 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn nodi'r camau i'w cymryd cyn ac ar ôl penderfyniad nad oes angen mwyach i gynnal CDU ar gyfer person ifanc a sut dylid dod i'r penderfyniad hwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn rydym yn bwriadu ei ddarparu ar ei gyfer yn y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 46 o Ddeddf 2018.

Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud	Pŵer i wneud rheoliadau
Cyfnod ar gyfer gwneud cais i awdurdod lleol i ailystyried penderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU	Adran 32(1)(b) o Ddeddf 2018

1.99 Cynigir darparu cyfnod o 4 wythnos (gweler paragraffau 21.18 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) pan all plentyn, ei riant neu berson ifanc wneud cais i awdurdod lleol ailystyried penderfyniad ysgol i roi'r gorau i gynnal CDU ar gyfer disgybl cofrestredig. Byddai hyn 4 wythnos o'r ysgol yn hysbysu am ei phenderfyniad nad oes gan y disgybl ADY mwyach (gyda'r cyfnod o 4 wythnos yn dechrau drannoeth i'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad). Cynigir y cyfnod hwn o amser ar y sail ei fod yn rhoi cyfnod rhesymol o amser ar gyfer gwneud cais am ailystyriaeth, gan ystyried y ffaith y bydd y plentyn, ei riant neu'r person ifanc eisoes wedi bod yn rhan o'r adolygiad a lywiodd y penderfyniad i roi'r gorau i gynnal y CDU. Ni fyddem yn dymuno oedi'n ddiangen benderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU, lle nad oes angen un mwyach.

Cwestiwn 35. Ydy'r cyfnod o amser ar gyfer gwneud cais am ailystyriaeth (a ddisgrifir yn 21.18 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

Pennod 22 – Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw

Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud	Pŵer i wneud rheoliadau
Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw: (a) Penderfynu a fydd hi'n angenrheidiol cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc dan gadwad	(a) Adran 46 o Ddeddf 2018
(b) Swyddogaethau sy'n berthnasol lle mae plentyn neu berson ifanc yn destun gorchmynion cadw ac yn cael ei gadw yn yr ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983	(b) Adran 45 o Ddeddf 2018

1.100 Mae Pennod 22 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn ymdrin â'r sefyllfa ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw, yn enwedig y rhai sy'n cael eu cadw mewn lleu y ieuencid perthnasol a'r rhai sy'n destun gorchmynion cadw ac yn cael eu cadw mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r ymdrin â hawl y plentyn neu berson ifanc i gael penderfyniad ar ADY, i DDdY, eu hawliau i apelio, ac mae'n egluro beth sy'n digwydd i CDU pan fyddant yn cael eu cadw'n gaeth.

Cwestiwn 36. Ydy cynnwys a strwythur Pennod 22 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

1.101 Lle nad oes gan unigolyn dan gadwad CDU, a bod ei awdurdod cartref (os yw yng Nghymru) yn penderfynu bod gan yr unigolyn ADY, mae adran 40(2)(b) o'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod cartref benderfynu yn unol â rheoliadau o dan adran 46 o'r Ddeddf a fydd hi'n angenrheidiol cynnal CDU ar gyfer y person dan gadwad pan fydd yn cael ei ryddhau i ddiwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant.

1.102 Mae paragraffau 22.15 - 22.17 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn adlewyrchu'r hyn rydym yn bwriadu darparu ar ei gyfer yn y rheoliadau hyn. Yn y bôn, bydd hyn yn golygu y bydd angen i awdurdod lleol baratoi CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc dan gadwad i gael ei gynnal pan fydd yn cael ei ryddhau oni bai fod un o'r eithriadau yn 22.15 (a) a (b) yn berthnasol (ei bod hi'n debygol y bydd y person wedi troi'n 25 oed cyn cael ei ryddhau, ei bod hi'n annhebygol y bydd ganddo anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant adeg ei ryddhau).

1.103 O dan y Ddeddf, mae CDU bob amser yn angenrheidiol ar gyfer plentyn ag ADY (sydd yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru). Mae CDU yn angenrheidiol ar gyfer person ifanc (yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru) os yw'r person hwnnw mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, wedi cofrestru fel myfyriwr mewn SAB yng Nghymru neu fel arall, bod ganddo anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant (a fydd yn cael eu pennu yn unol â'r rheoliadau – gweler Pennod 12 y Cod drafft a'r cwestiynau cysylltiedig yn y ddogfen ymgynghori) ac, yn yr holl

achosion hynny, ar yr amod bod y person ifanc yn cydsynio i gael un. Mae'r cynigion ar gyfer y rheoliadau ynghylch pryd y bydd hi'n angenrheidiol i CDU gael ei gynnal ar gyfer person dan gadwad pan fydd yn cael ei ryddhau.

1.104 Lle mae'r person dan gadwad yn blentyn, mae'r cynigion yn tybio y bydd gan y person anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant pan fydd yn cael ei ryddhau ar yr amod nad yw'n debygol o fod wedi troi'n 25 oed.¹⁶ Mae hyn oherwydd na fyddai'n briodol ystyried a fyddai ganddo anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant cyn iddo ddod yn berson ifanc oherwydd gallai'r amgylchiadau sy'n effeithio ar y cwestiwn fod yn wahanol unwaith mae'n troi'n berson ifanc (er enghraifft, efallai na fydd plentyn dan gadwad eisiau ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant ôl-16, ond gallai hyn newid unwaith mae'n troi'n berson ifanc.

Cwestiwn 37. Ydy'r cynigion ar gyfer y rheoliadau mewn perthynas â phenderfynu a fydd hi'n angenrheidiol cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc dan gadwad pan fydd yn cael ei ryddhau yn briodol?

1.105 Mae adran 45 o Ddeddf 2018 yn rhoi pŵer rheoleiddio i Weinidogion Cymru gymhwyso (gyda neu heb addasiadau) y pwerau neu'r dyletswyddau o dan Ddeddf 2018 i blant neu bobl ifanc sy'n destun gorchymyn cadw ac sydd dan gadwad mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Lechyd Meddwl 1983 lle nad yw'r pwerau a'r dyletswyddau hynny'n gymwys fel arall. Cynigir y bydd y rheoliadau yn darparu i'r sefyllfa fod fel y nodir ym mharagraffau 22.45 – 22.73 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY. Yn yr hanfod, mae hyn i ddarparu bod awdurdodau lleol yn cael dyletswyddau i benderfynu a oes gan berson heb CDU ADY ac, os felly, i baratoi a chynnal CDU ar gyfer y plentyn neu berson ifanc (yn achos pobl ifanc, ar yr amod bod ganddynt anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant a chydsyniad) pan fyddant dan gadwad yn yr ysbyty. Os oedd CDU yn cael ei gadw neu ei gynnal ar gyfer y person cyn iddo gael ei gadw yn yr ysbyty, byddai dyletswydd ar yr awdurdod lleol i'w gynnal (ond yn achos person ifanc, dylai ystyried mewn adolygiad a oes angen parhau i'w gynnal). Mae'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y dyletswyddau yn dibynnu ar y sefyllfa.

Cwestiwn 38. Ydy'r cynigion ar gyfer y rheoliadau mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc sy'n destun gorchymyn cadw a dan gadwad mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Lechyd Meddwl 1983 (fel y disgrifir ym mharagraffau 22.45 – 22.73 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

1.106 Mae Pennod 22 hefyd yn pennu amserlenni y mae'n rhaid i awdurdod lleol cartref neu awdurdod lleol perthnasol gadw atynt wrth wneud penderfyniadau am ADY a'r angen am CDU, paratoi unrhyw CDU a hysbysu am y penderfyniadau

¹⁶ O dan y Ddeddf, nid oes gan berson 25 oed neu hŷn hawliau i benderfyniadau ynghylch a oes ganddynt ADY, na'r hawl i CDU, ac eithrio bod y ddyletswydd i baratoi a chynnal CDU ar gyfer person pan mae'n troi'n 25 yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd y mae ynddi (Adran 34 o'r Ddeddf).

hynny neu roi copi o CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc sy'n destun gorchymyn cadw. Y gofynion arfaethedig yw bod rhaid gwneud y pethau hyn yn "brydlon".

1.107 Yn wahanol i'r gofynion arfaethedig eraill o ran amserlenni a fydd yn cael eu pennu gan y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY mewn perthynas â dyletswyddau tebyg yn y Ddeddf, nid ydyn yn cynnig cynnwys gofyniad i'r pethau hyn gael eu gwneud o fewn cyfnod penodol (fel 12 wythnos) yn amodol ar yr eithriad (bod cydymffurfiaeth yn anymarferol oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod).¹⁷

1.108 Mae hyn oherwydd, yn achos y sefyllfaoedd cadw sy'n cael sylw ym Mhennod 22, yn aml bydd cymhlethdodau ychwanegol sy'n effeithio ar pa mor gyflym y gall awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswyddau. Er enghraifft, mae cael mynediad at y plentyn neu berson ifanc yn debygol o fod yn anoddach oherwydd ei fod mewn llety diogel a allai fod wedi ei leoli cryn bellter i ffwrdd o'r awdurdod. Hefyd, gall fod angen mynd i'r afael â materion pwysig eraill yn ymwneud â'r plentyn neu berson ifanc ar y pryd, fel y person dan gadwad yn ymateb i gyhuddiadau troseddol yn ei erbyn neu'n cael triniaeth iechyd meddwl. Felly mae'n anoddach pennu cyfnod penodol y byddai'n bosibl ac yn rhesymol i awdurdod lleol yn y rhan fwyaf o achosion orffen arfer y swyddogaethau hyn.

1.109 Wrth ddatblygu'r cynnig hwn, ystyriwyd darparu ar gyfer cyfnod penodol, fel 12 wythnos (sef y cyfnod sydd gan awdurdodau lleol i gyflawni dyletswyddau tebyg mewn sefyllfaoedd eraill) gan y byddai'r eithriad ar gael mewn achosion lle mae cydymffurfio o fewn y cyfnod penodol yn anymarferol oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth awdurdod. Fodd bynnag, gallai fod achosion lle na fyddai'r eithriad yn berthnasol ond serch hynny mae'n bosibl na fyddai'n briodol i awdurdod gydymffurfio â'i ddyletswyddau o fewn y cyfnod penodol hwnnw. Er enghraifft, os oes disgwyl penderfyniad ynghylch cyhuddiad troseddol yn fuan, er y gallai'r awdurdod cartref benderfynu a oedd angen CDU neu baratoi CDU cyn hynny, gallai fod mewn sefyllfa well i wneud hynny o wybod canlyniad yr achos troseddol. Yn yr un modd, yn achos person ifanc dan gadwad mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, os oes disgwyl mwy o sicrwydd ynghylch am faint fydd person ifanc dan gadwad neu am ganlyniad triniaeth yn fuan, gallai fod yn well penderfynu a oes angen CDU neu baratoi CDU pan fydd y pethau hyn yn hysbys.

1.110 Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gael cyfnod penodol hwy ar gyfer cydymffurfio a/neu eithriad ychwanegol. Fodd bynnag, nid oes cyfnod penodol hwy amlwg, o ystyried yr amrywiaeth eang posibl o amgylchiadau a allai godi a gallai unrhyw eithriad olygu risg bod yr achosion iawn ddim yn cael sylw. Yn ein barn ni, mae'n fwy priodol a phlaen cael gofyniad syml i'r awdurdod lleol weithredu'n "brydlon" yn yr holl achosion dan sylw ym Mhennod 22. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol o hyd i'r awdurdod lleol weithredu'n gyflym ynghylch y mater, ond yn rhoi hyblygrwydd hefyd ar gyfer achosion lle nad yw cydymffurfio o fewn cyfnod penodol, yn amodol ar yr eithriad, yn briodol o bosibl. Yn achos pobl dan gadwad, mae'r angen i weithredu'n gyflym yn cael ei egluro ym mharagraff 22.36 y Cod drafft.

¹⁷ Mae paragraffau 1.3 – 1.10 uchod yn egluro'r dull gweithredu cyffredinol a ddefnyddiwyd mewn perthynas â phennu amserlenni yn y Cod drafft ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau.

Cwestiwn 39. Ydy'r gofynion o ran amserlenni ar gyfer gweithredu'n "brydlon" mewn perthynas â phenderfyniadau am ADY a pahratol CDU ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw (fel y nodir ym Mhennod 22) yn briodol, yn hytrach na chael gofyniad hefyd i gydymffurfio o fewn cyfnod penodol yn amodol ar eithriad neu eithriadau?

Pennod 23 – Plant a phobl ifanc o dan amgylchiadau penodol

1.111 Mae Pennod 23 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn ymdrin â phlant a phobl ifanc o dan amgylchiadau penodol sef:

- plant a phobl ifanc sydd mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru ac sydd wedi eu cofrestru fel disgyblion mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu wedi eu cofrestru fel myfyrwyr mewn SAB yng Nghymru;
- plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) heblaw mewn Uned Cyfeirio Disgyblion;
- plant sy'n mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion;
- plant a phobl ifanc sydd mewn EOTAS oherwydd anghenion gofal iechyd;
- plant sy'n derbyn addysg heblaw mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu EOTAS; a
- phlant personél y Lluoedd Arfog.

Cwestiwn 40. Ydy'r canllawiau ym Mhennod 23 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar blant a phobl ifanc o dan amgylchiadau penodol yn briodol?

Pennod 24 – Rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

1.112 Mae Pennod 24 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn nodi'r wybodaeth allweddol ar gyfer partïon â buddiant am rôl y Cydlynnydd ADY. Mae'n cynnwys gwybodaeth cyfrifoldebau a disgwyliadau cyffredinol Cydlynwyr ADY ac ystyriaethau, lle bo'n briodol, ynghylch a oes gan unigolion y profiad gofynnol i gyflawni'r rôl. Mae'r bennod yn cyfeirio hefyd at y gofynion cyfreithiol i fod yn Gydlynnydd ADY.

1.113 Mae'r set lawn o ofynion mewn perthynas â'r cymwysterau a'r profiad sydd eu hangen i fod yn Gydlynnydd ADY, a'r swyddogaethau sydd angen eu cwblhau yn y rôl, wedi'u nodi yn Rheoliadau Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ("y rheoliadau Cydlynwyr ADY drafft").

1.114 Gan fod y wybodaeth a roddir yn y bennod hon yn ailadrodd yn rhannol y darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y rheoliadau Cydlynwyr ADY drafft, y rhesymwaith ar gyfer y darpariaethau hyn a'r cwestiynau ymgynghori cysylltiedig wedi'u cynnwys yn Rhan 3 o'r ddogfen ymgynghori hon ynghyd â'r rheoliadau Cydlynwyr ADY drafft. Argymhellir, felly, bod ymatebwyr yn cyfeirio at Ran 3 o'r ddogfen ymgynghori wrth ystyried y bennod hon.

Cwestiwn 41. Ydy'r wybodaeth a nodir ym Mhennod 24 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY am rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynedd ADY yn briodol?

Pennod 25 – Osgoi a datrys anghydfodau

1.115 Mae Pennod 25 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn nodi'r canllawiau a'r gofynion mewn perthynas â'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i osgoi a datrys anghydfod ac i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol.

1.116 Mae'n gwneud nifer o ofynion gorfodol mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghydfod sy'n gorfod cwmpasu'r ffordd mae ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf 2018 a'r ffordd y mae DDdY yn cael ei gwneud a'i chyflenwi, yn cynnwys os bernir nad yw'r DDdY yn cael ei chyflenwi mewn modd cynaliadwy neu i safon addas.

Cwestiwn 42. Ydy'r gofynion a osodir ym Mhennod 25 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar awdurdodau lleol mewn perthynas â threfniadau i osgoi a datrys anghydfod yn briodol?

1.117 Mae Pennod 25 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn nodi nifer o ofynion gorfodol, a osodir gan y Cod, mewn perthynas â dyletswyddau awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol. Wrth ddatblygu'r adran hon o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, ystyriwyd Eirioli Proffesiynol Annibynnol: Safonau Cenedlaethol a Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc newydd arfaethedig.

Cwestiwn 43. Ydy'r gofynion a osodir ym Mhennod 25 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu gwasanaethau eirioli annibynnol yn briodol?

Pennod 26 – Apelau a cheisiadau i'r Tribiwnlys

1.118 Mae Pennod 26 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn darparu gwybodaeth allweddol am apelau a wneir i Dribiwnlys Addysg Cymru ('y Tribiwnlys'), yn cynnwys:

- materion y gellir apelio yn eu cylch;
- penderfyniadau y gellir eu gwneud gan y Tribiwnlys;
- amserlenni'n ymwneud â'r broses apelau a chydymffurfio â gorchmynion;
- pwerau'r Tribiwnlys mewn perthynas â chyrrff y GIG; ac
- adolygiadau o benderfyniadau'r Tribiwnlys ac apelau yn eu herbyn.

1.119 Mae'r set lawn o weithdrefnau i'w dilyn mewn achosion gerbron y Tribiwnlys wedi eu nodi yn y Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft ('y Rheoliadau drafft'), a fydd yn cael eu gwneud o dan Ddeddf 2018. Maent yn cynnwys cychwyn apêl a'r achos sy'n dilyn. Hefyd, mae'r Tribiwnlys yn darparu ar ei wefan gyngor a chanllawiau ar y broses apelau a'r gweithdrefnau i'w dilyn – bydd y cyngor a'r canllawiau yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r system ADY a chylch gwaith estynedig y Tribiwnlys maes o law.

1.120 Bwriad y bennod hon, felly, yw rhoi'r hyn a dybir yw'r wybodaeth allweddol y bydd awdurdodau lleol, SAB a chyrrff y GIG eisiau bod yn ymwybodol ohoni mewn perthynas ag apelau. Yn arbennig, mae'r bennod hon yn nodi'r amserlenni perthnasol y dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol ohonynt. Diben cynnwys gwybodaeth o'r fath yn y Cod ADY yw gwneud y wybodaeth yn hygyrch i awdurdodau lleol, SAB a chyrrff y GIG mewn un ddogfen.

1.121 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y rheoliadau drafft ar Dribiwnlys Addysg Cymru. Mae'r rhesymwaith ar gyfer y darpariaethau hyn (yn cynnwys amserlenni) a chwestiynau ymgynghori cysylltiedig i'w gweld yn Rhan 2 y ddogfen ymgynghori hon ar y rheoliadau drafft. Argymhellir, felly, bod ymatebwyr yn cyfeirio at Ran 2 y ddogfen ymgynghori wrth ystyried y bennod hon.

Cwestiwn 44. Ydy'r wybodaeth am apelau a'r broses apelau a nodir ym Mhennod 26 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol?

Pennod 27 – Cyfeillion achos ar gyfer plant â diffyg galluedd

1.122 Mae Pennod 27 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn egluro sut gall plentyn sydd â diffyg galluedd fel y'i diffinnir yn Neddf 2018 ddefnyddio cyfaill achos i weithredu ar ei ran wrth arfer hawliau penodol. Mae'n rhoi gwybodaeth hefyd am rôl cyfaill achos, a sut maent yn cael eu penodi a'u dileu gan y Tribiwnlys.

1.123 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y rheoliadau drafft am gyfeillion achos. Mae'r rhesymwaith ar gyfer y darpariaethau hyn a'r cwestiynau ymgynghori cysylltiedig i'w gweld yn Rhan 2 y ddogfen ymgynghori hon ar y rheoliadau drafft. Argymhellir, felly, bod ymatebwyr yn cyfeirio at Ran 2 y ddogfen ymgynghori wrth ystyried y bennod hon.

Cwestiwn 45. Ydy'r wybodaeth am gyfeillion achos, yn cynnwys y dyletswyddau ar y Tribiwnlys i benodi a dileu ffrindiau achos, yn cael ei hegluro'n glir ym Mhennod 27 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY?

Unrhyw sylwadau eraill

Cwestiwn 46. Rhowch unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY. Os yw'ch sylwadau'n ymwneud â phennod neu baragraff penodol yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, nodwch hynny yn eich ymateb

Rhan 2 yr ymgynghoriad: Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft

Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud	Pŵer i wneud rheoliadau
Gweithdrefnau a chyfansoddiad Tribiwnlys Addysg Cymru	Adran 74(1), 75(1), 75(2), 75(4), 76(3), 77, 91(6) a 92(2) o Ddeddf 2018
Cyfeillion achos ar gyfer plant â diffyg galluedd	Adran 85(8) o Ddeddf 2018

Cyflwyniad

2.1 Mae Deddf 2018 yn ailenwi Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ('TAAAC) fel Tribiwnlys Addysg Cymru ('y Tribiwnlys Addysg'). Mae cylch gwaith y Tribiwnlys Addysg yn cael ei ymestyn hefyd i glywed apelau ADY yn erbyn cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach (SAB) yn ogystal ag yn erbyn awdurdodau lleol. Gall:

- wneud gorchmynion i awdurdodau lleol a SAB mewn perthynas ag apelau ADY;
- gwneud argymhellion i gyrff y GIG mewn perthynas ag apelau ADY; a
- phenodi 'cyfeillion achos' ar gyfer plant â diffyg galluedd.

2.2 Mae cylch gwaith y Tribiwnlys Addysg hefyd yn cynnwys clywed hawliadau yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn ysgolion, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010¹⁸.

2.3 Mae Deddf 2018¹⁹ yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau am:

- ddarparu apelau a gweithdrefn apelau i'r Tribiwnlys Addysg o dan Ran 2 o Ddeddf 2018;
- yr amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Tribiwnlys Addysg mewn ymateb i argymhellion ar gyfer cyrff y GIG mewn perthynas â'u swyddogaethau o dan y Ddeddf;
- cydymffurfio â gorchmynion a wnaed gan y Tribiwnlys Addysg;
- rhieni a phobl ifanc â diffyg galluedd;
- cyfeillion achos ar gyfer plant â diffyg galluedd; a
- chyfansoddiad y Tribiwnlys Addysg.

2.4 Mae Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2019 drafft ('y rheoliadau Tribiwnlys drafft'), sydd wedi eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori, yn ymdrin â'r materion a restrir uchod, ac eithrio rhieni a phobl ifanc â diffyg galluedd (gweler adran 'Rheoliadau arfaethedig' cyflwyniad y ddogfen ymgynghori hon am esboniad).

2.5 Mae Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2012 ('rheoliadau 2012') yn nodi'r broses a'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn achosion Tribiwnlys Anghenion Addysgol

¹⁸ Pwerau a roddwyd o dan adran 207(4) ac Atodlen 17, paragraffau 6A, 6(1), (2), (3), (4), (5) a (7) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n cadw'r drefn gyffredinol lle mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn clywed hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn ysgolion.

¹⁹ Pwerau a roddwyd o dan adrannau 70 (4), 74, 75, 76(3), 77, 83(2), 85(8), 91(6), 92(2) o'r Ddeddf.

Arbennig Cymru. Bydd rheoliadau 2012 yn cael eu disodli gan reoliadau'n ymwneud â'r Tribiwnlys Addysg maes o law.

2.6 Darperir gwybodaeth a chynghor am brosesau a gweithdrefnau apelau, yn cynnwys ynghylch plant â diffyg galluedd a cheisiadau am gyfeillion achos, yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY (gweler Penodau 26 and 27 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY). Hwyrach y bydd ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn am ystyried cynnwys y Penodau hynny o'r Cod i roi cyd-destun wrth ymateb i'r cwestiynau ymgynghori ar y rheoliadau Tribiwnlys drafft hyn.

Yr hyn rydym yn ei gynnig

2.7 Dau o brif amcanion Deddf 2018 yw creu system sy'n arwain at ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, ac sy'n cynnig prosesau teg a thryloyw ar gyfer datrys pryderon ac apelau.

2.8 Nod y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft yw:

- darparu prosesau a gweithdrefnau clir ac effeithiol ar gyfer apelau a hawliadau, sy'n osgoi unrhyw oedi diangen wrth geisio'u datrys; a
- darparu ar gyfer tribiwnlys sy'n gallu ymdrin ag achosion yn gymesur, yn deg ac yn gyfiawn, a gwneud penderfyniadau gwybodus.

2.9 Mae'r Rhan hon o'r ddogfen ymgynghori yn gofyn am farn ar y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft.

Cwestiwn 47. At ei gilydd, Ydy'r rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft yn darparu prosesau a gweithdrefnau clir ar gyfer apelau a hawliadau i'r Tribiwnlys Addysg?

Cwestiwn 48. At ei gilydd, a fydd y prosesau a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y rheoliadau Tribiwnlys Addysg draffy yn galluogi'r Tribiwnlys Addysg i ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn?

Codi ymwybyddiaeth o drefniadau datrys anghydfod awdurdodau lleol (gweler rheoliad 8 drafft)

2.10 Lle mae yna anghydfod, dylai trefniadau datrys anghydfod awdurdodau lleol arwain at ddatrys pryderon yn gynt na gorfod mynd drwy broses lawn y tribiwnlys, arbed cryn dipyn o amser ac arian, ac amharu cyn lleied â phosibl ar ddysgu plentyn neu berson ifanc. Fel y cyfryw, mae'r rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft (rheoliad 8 drafft) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Llywydd neu banel y tribiwnlys, lle bo'n briodol, i dynnu sylw partïon at y ffaith bod gweithdrefnau eraill ar gael ar gyfer datrys anghydfod. Mae hyn yn cryfhau'r ddarpariaeth gyfatebol a nodir yn rheoliadau 2012²⁰, sy'n rhoi pŵer (yn hytrach na dyletswydd) i'r Llywydd neu banel y tribiwnlys i ddwyn i sylw'r partïon unrhyw weithdrefn amgen ar gyfer datrys anghydfod.

²⁰ Rheoliad 8(1) o reoliadau 2012

Y broses datganiad achos (gweler rheoliadau 12-15 a 19-21 o'r rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft)

2.11 Mae'r datganiad achos yn cynnwys dogfen(nau) a gyflwynir i'r Tribiwnlys Addysg yn dilyn cychwyn apêl neu hawliad. Mae datganiad achos yn nodi'r materion sydd wedi'u cynnwys yn rheoliad 20 drafft (mewn perthynas â'r apelydd neu'r hawlydd) a 21 mewn perthynas â'r ymatebydd. "Ymatebydd" yw'r term a ddefnyddir yn y rheoliadau ar gyfer diffynnydd apêl neu hawliad.

2.12 Darperir ar gyfer y cyfnodau amser ar gyfer cyflwyno datganiadau achos yn rheoliad 19 drafft.

2.13 O dan y system AAA gyfredol rhaid i apêl gael ei derbyn gan TAAAC dim hwyrach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i 2 fis fynd heibio gan ddechrau gyda'r dyddiad pan roddwyd rhybudd ysgrifenedig o benderfyniad yr awdurdod lleoliad (mae rheoliad 12 rheoliadau 2012 yn cyfeirio at hyn). Rhaid i TAAAC dderbyn datganiad achos yr apelydd o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad mae'r apêl yn cael ei ffeilio (mae rheoliad 19 rheoliadau 2012 yn cyfeirio at hyn). Mae un cyfnod ar gyfer datganiad achos yn gymwys hefyd i'r ymatebydd, yr awdurdod lleol, ar yr un pryd, sy'n golygu nad yw'r ymatebydd yn gweld datganiad achos yr apelydd tan ar ôl iddo gyflwyno ei ddatganiad achos a thystiolaeth ei hun (mae'r cyfnod ar gyfer datganiad achos yn gymwys hefyd mewn perthynas â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd).

2.14 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n rhesymegol i broses datganiad achos fod yn un ddilyniannol ac felly'n wahanol i broses gyfredol TAAAC. Mae'r broses a ragnodir gan y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft yn darparu bod yr ymatebydd (h.y. awdurdodau lleol neu SAB yn achos apelau ADY; neu ysgolion mewn perthynas â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd) yn cael gweld ac felly ymateb i ddatganiad achos yr apelydd neu'r hawlydd pan fydd yn cyflwyno ei ddatganiad achos ei hun. Mae'r rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft (rheoliadau drafft 19(4) a (5)) yn nodi felly bod rhaid i'r ymatebydd gyflwyno'i ddatganiad achos o fewn 4 wythnos o dderbyn copi o ddatganiad achos yr apelydd neu'r hawlydd gan y Tribiwnlys Addysg.

2.15 Byddai hyn yn rhoi cyfle i ymatebwyr ystyried, deall ac ymateb i'r achos a wnaed yn eu herbyn ac yn eu galluogi i baratoi ymateb penodol i ddatganiad achos yr apelydd neu'r hawlydd. Bydd hyn yn galluogi pob parti a'r Tribiwnlys i nodi'n glir y meysydd sy'n destun anghydfod (neu, yn wir, feysydd lle mae pawb yn cydweld). Gallai roi cyfle hefyd i'r ymatebwyr ystyried gweithdrefnau datrys anghydfod eraill neu setliad, a allai osgoi'r angen am wrandawriad terfynol yn yr achos tribiwnlys. Mae'r dull gweithredu dilyniannol hwn yn cyd-fynd yn fras ag ymgyfreitha mewn llysoedd eraill.

2.16 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y byddai'r broses fel a ganlyn (gweler rheoliadau 12 i 15 a 19 i 21 y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft):

- Os yw plentyn, ei riant neu berson ifanc am wneud apêl yn erbyn awdurdod lleol neu SAB o dan Ddeddf 2018, rhaid cyflwyno'r apêl i'r Tribiwnlys Addysg o fewn 8 wythnos o wneud y penderfyniad hwnnw

(rheoliad 12(1) drafft)²¹. Hefyd, rhaid i'r apelydd ddarparu ei ddatganiad achos llawn o fewn y cyfnod hwn o 8 wythnos (rheoliad 19(1) drafft). Yr apelydd fyddai'n penderfynu a yw am gyflwyno'r datganiad achos yr un pryd â'r cais cychwynol am apêl, neu faes o law yn ystod y cyfnod o 8 wythnos.

- Pan wneir cais cychwynol, waeth a yw'r apelydd neu'r hawlydd yn darparu'r datganiad achos llawn ar yr un pryd ai peidio, rhaid i'r Tribiwnlys Addysg anfon copi o'r cais at y diffynnydd (rheoliad 15(2)(a) drafft). (Byddai hwn yn cael ei anfon yr un pryd ag y mae'r Tribiwnlys Addysg yn anfon cydnabyddiaeth at yr apelydd neu'r hawlydd ei fod wedi derbyn ei gais a hysbysiad yn nodi'r amserlen ar gyfer cyflwyno'u datganiad achos a thystiolaeth.)
- Pan fydd y Tribiwnlys Addysg yn derbyn y datganiad achos llawn (a allai gael ei gyflwyno gan yr apelydd neu'r hawlydd ar yr un pryd â'r cais cychwynol neu faes o law), rhaid iddo gyflwyno copi o'r datganiad achos i'r diffynnydd (rheoliad 15(2)(a) drafft). Bydd gan y diffynnydd 4 wythnos o ddyddiad derbyn datganiad achos yr apelydd neu'r hawlydd i adolygu'r cais ac ymateb i'r datganiad achos (rheoliadau 19(4) a (5) drafft).

2.17 Mae'r broses hon yn golygu y bydd gan apelydd 8 wythnos i wneud apêl a chyflwyno ei ddatganiad achos. O dan reoliadau 2012, byddai gan yr apelydd 2 fis i wneud yr apêl a 30 diwrnod i gyflwyno ei ddatganiad achos²². Mae'r broses a nodir yn y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft yn cynnwys y 4 wythnos hynny yn yr amserlenni cyfredol er mwyn osgoi gwneud y broses gyffredinol yn hwy heb angen.

2.18 Os yw apelydd neu hawlydd am ymateb i fater sy'n codi yn natganiad achos y diffynnydd, gall wneud cais am gyfarwyddyd i'w ganiatáu i gyflwyno datganiadau ategol (gweler rheoliadau 20(3) a 31 drafft).

2.19 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y darpariaethau hyn yn cefnogi prif amcan y Tribiwnlys Addysg sef ymdrin ag achosion yn deg, yn gyfiawn ac yn amserol, a bydd yn sicrhau bod y ffocws yn parhau ar y prif faterion sy'n destun anghydfod. Dylai hyn helpu i osgoi oedi cyn datrys yr anghydfod.

Cwestiwn 49. Ydy'r broses arfaethedig ar gyfer datganiadau achos (rheoliadau 12 i 15 a 19 i 21 y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft) yn briodol?

²¹ Mewn perthynas â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabled, byddai'r cyfnod y byddai gofyn i'r Tribiwnlys Addysg dderbyn hawliad oddi fewn iddo yn parhau i fod yr un fath ag y mae ar hyn o bryd ar gyfer TAAAC; hynny yw, dim hwyrach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod a nodir ym mharagraff 4(1) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010. O dan reoliad 19(2) y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft, rhaid i hawlydd ddarparu ei ddatganiad achos o fewn 8 wythnos o wneud yr hawliad cychwynol.

²² Mae'r defnydd o 'wythnosau' yn hytrach na 'misoedd' ar gyfer yr amserlenni gofynnol yn y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft yn cyd-fynd â'r amserlenni a weithredir yn achos dyletswyddau ar awdurdodau lleol a ragnodir gan y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY.

Cwestiwn 50. Ydy'r amserlenni arfaethedig ar gyfer pob parti yn y broses datganiadau achos (rheoliadau 12 i 15 a 19 i 21 y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft) yn rhesymol?

Argymhellion i gyrff y GIG (gweler rheoliad 65 y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft)

2.20 Mewn perthynas ag apêl a wneir o dan Ran 2 y Ddeddf, gall y Tribiwnlys Addysg:

- ei gwneud yn ofynnol i gorff y GIG ddarparu tystiolaeth am arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf 2018; a
- gwneud argymhellion i gorff y GIG am arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf 2018.

2.21 Os yw'r Tribiwnlys Addysg yn gwneud argymhelliad i gorff y GIG, rhaid i'r corff hwnnw adrodd i'r Tribiwnlys Addysg gan ddweud:

- y camau gweithredu y mae corff y GIG wedi'u cymryd neu'n cynnig eu cymryd mewn ymateb i argymhelliad y Tribiwnlys Addysg; neu
- pam nad yw'r corff wedi cymryd unrhyw gamau a pham nad yw'n cynnig cymryd unrhyw gamau mewn ymateb i'r argymhelliad.

2.22 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bod yr amserlen i'r GIG adrodd cyn diwedd 6 wythnos yn dechrau ar y dyddiad y mae'r argymhelliad yn cael ei wneud gan y Tribiwnlys Addysg (rheoliad 65(1) drafft). Mae'r amserlen hon o 6 wythnos yn gyson â'r cyfnod y mae'n rhaid i gorff y GIG (a phersonau perthnasol eraill) fodloni ceisiadau am gymorth gan awdurdod lleol (mae paragraff 1.73 y ddogfen ymgynghori hon yn cyfeirio at hyn).

Cwestiwn 51. Ydy'r amserlen lle mae'n rhaid i gyrff y GIG adrodd i'r Tribiwnlys Addysg o fewn 6 wythnos i argymhelliad (rheoliad 65 o'r rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft) yn briodol?

Cydymffurfio â gorchmynion (gweler 60 y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft)

2.23 Mae amserlenni ar gyfer cydymffurfio â gorchmynion a nodir yn rheoliad 60 drafft yn wahanol i'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn rheoliad 61 rheoliadau 2012. Mae'r amserlenni sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft wedi'u datblygu yng nghyd-destun amserlenni arfaethedig yn ymwneud â dyletswyddau perthnasol eraill ar awdurdodau lleol i gael eu rhagnodi gan y Cod ADY (gweler paragraffau 1.35 – 1.46 y ddogfen ymgynghori hon). Mae'r rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft hefyd yn cynnwys amserlenni penodol ar gyfer cydymffurfio â gorchmynion mewn perthynas â phobl sy'n cael eu cadw'n gaeth, sy'n ymwneud â darpariaethau newydd a nodir yn Neddf 2018 (gweler rheoliadau 60(3), (4) a (5) drafft).

Cwestiwn 52. Ydy'r amserlenni ar gyfer cydymffurfio â gorchmynion y Tribiwnlys Addysg yn briodol?

Estyniadau i amserlenni (gweler rheoliad 66 y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft)

2.24 Nid oes eithriadau i'r amserlenni hyn a nodir yn y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft. Fodd bynnag, nid yw'r rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft yn darparu i unrhyw barti sy'n rhan o apêl neu hawliad wneud cais i'r Tribiwnlys Addysg am estyniad i unrhyw amserlen yn ymwneud â'r broses apelau neu hawliadau, gan nodi ei resymau am wneud cais am estyniad. Gall y Tribiwnlys Addysg roi estyniad i amserlen yn ôl ei ddisgresiwn os yw o'r farn ei bod hi'n deg ac yn gyfiawn gwneud hynny (mae rheoliad 66 yn cyfeirio at hyn).

Cwestiwn 53. Ydy'r dull gweithredu mewn perthynas ag amserlenni (rheoliad 66 y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft) yn briodol?

Cyfeillion achos (gweler rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft 61 i 64)

2.25 Mae rheoliadau 2012 yn cynnwys rhan ar gyfeillion achos ar gyfer plant â diffyg galluedd. O dan adran 85 o Ddeddf 2018, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y bydd y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft ar gyfeillion achos yn ailadrodd llawer o'r rheoliadau cyfredol, er bod rhai mân-newidiadau.

2.26 Os yw Llywydd y Tribiwnlys yn barnu bod gan blentyn ddiffyg galluedd yn ystod achos apêl, ni fydd yr achos yn cael parhau nes fod gan y plentyn gyfaill achos i'w gynrychioli. Mae hyn yn sicrhau bod hawliau'r plentyn o dan y Ddeddf yn cael eu harfer yn gywir ac yn adlewyrchu arferion cyfredol TAAAC.

2.27 O dan y system ADY, bydd cyfeillion achos yn gallu cael eu defnyddio cyn cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Addysg, sy'n golygu y gallant gael eu defnyddio i gymryd rhan mewn trefniadau i osgoi a datrys anghydfod yn llawer cynharach. Hefyd, byddant yn gallu cael eu defnyddio'n fwy cyffredinol i gynrychioli a chefnogi'r plentyn, hyd yn oed cyn i anghydfod godi.

2.28 Mae rheoliad 62(5) drafft yn nodi rhestr o aelodau'r teulu sydd wedi'u heithrio rhag darparu gwiriad DBS uwch gyda gwybodaeth am restr waharddedig wrth wneud cais i'r Tribiwnlys Addysg fod yn gyfaill achos plentyn.

Cwestiwn 54. Ydy'r rheoliadau arfaethedig yn ymwneud â chyfeillion achos (rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft 61 i 64) yn briodol?

Rhan 3 yr ymgynghoriad: Fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Cydlynnydd ADY

Cyflwyniad

Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud	Pŵer i wneud rheoliadau
Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol	Adran 60(4) o Ddeddf 2018

3.1 Mae adran 60 o Ddeddf 2018 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion a gynhelir²³ a SAB yng Nghymru ddynodi person, neu fwy nag un person, i fod yn gyfrifol am gydlynu DDdY ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY yn eu hysgol neu SAB. Mae'n cynnwys gofyniad hefyd i'r bobl hyn gael eu hadnabod fel Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY).

3.2 Gall rheoliadau a wneir o dan adran 60 o Ddeddf 2018:
(a) ei gwneud hi'n ofynnol i gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a SAB yng Nghymru sicrhau bod gan Gydlynwyr ADY y cymwysterau rhagnodedig neu'r profiad rhagnodedig (neu'r cymwysterau a'r profiad);
(b) roi swyddogaethau i Gydlynwyr ADY mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr (fel sy'n briodol) ag ADY.

3.3 Bydd rôl Cydlynnydd ADY yn disodli'r rôl Cydlynnydd AAA anstatudol gyfredol, rôl sy'n bodoli yn y rhan fwyaf o ysgolion a gynhelir yng Nghymru a rolau anstatudol tebyg sy'n cael eu cyflawni mewn SAB yng Nghymru.

Yr hyn rydym yn ei gynnig

3.4 Y bwriad yw defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau i dan adran 60 o Ddeddf 2018 i sicrhau bod y rôl Cydlynnydd ADY yn cael ei gyflawni mewn ffordd gyson ac effeithlon ym mhob ysgol a SAB yng Nghymru, ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r system ADY a chyflawni amcanion trosfwaol Ddeddf 2018.

3.5 Mae'r Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2019 yn darparu ar gyfer y canlynol:

Cymhwyster rhagnodedig – ysgolion a gynhelir

3.6 Mae Llywodraeth Cymru eisiau i'r rôl Cydlynnydd ADY gynnwys ffocws cryf ar arweinyddiaeth. Yn gyffredinol, athrawon fyddai yn y sefyllfa orau i gyflawni'r agwedd hon ar y rôl gan eu bod yn debygol o fod â mynediad gwell at uwch reolwyr mewn ysgolion a byddant mewn sefyllfa well i ddylanwadu ar ddull ysgol gyfan mewn perthynas ag ADY. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol bod cyfran fach o'r Cydlynwyr AAA presennol ddim yn athrawon ac yn cydnabod bod llawer o'r Cydlynwyr AAA hyn wedi ennill eu plwyf yn eu hysgol ac yn cyflawni'r rôl yn effeithiol. O ystyried y ddau ffactor hyn, mae'r rheoliadau drafft yn cynnig bod rhaid i Gydlynwyr ADY, mewn ysgolion a gynhelir, fod naill ai'n:

²³ Ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol feithrin a gynhelir, neu uned cyfeirio disgyblion

- (a) athro ysgol fel y cydnabyddir yng Nghymru (wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg) neu'n
- (b) berson a oedd yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth ar gyfer disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig, o dan Ran 4 Deddf Addysg 1996, yn yr ysgol yn union cyn i'r rheoliadau ddod i rym.

Cymhwyster rhagnodedig - SAB

3.7 Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol nad oes gofyniad cyfreithiol i feddu ar gymhwyster ar lefel benodol er mwyn addysgu mewn SAB. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bobl mewn SAB yn cyflawni swyddogaethau sy'n cyfateb i rai Cydlynwyr AAA mewn ysgolion yn meddu ar dystysgrif addysg i raddedigion (TAR) neu gyfwerth ar hyn o bryd. Er mwyn darparu ar gyfer cyfwerthedd a chysondeb rhwng rôl y Cydlynwyr ADY mewn ysgolion ac mewn SAB, mae'r rheoliadau drafft yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gydlynwyr ADY, mewn SAB, fod yn athro addysg bellach fel y'i cydnabyddir yng Nghymru (wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg).

Swyddogaethau Cydlynwyr ADY

3.8 Mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod y gwaith o gydlynu darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY mewn ysgolion a SAB yn cael ei gyflawni mewn ffordd gyson ac effeithiol. I'r perwyl hwnnw, mae'r rheoliadau drafft yn rhestru'r tasgau sy'n hollbwysig er mwyn gwneud darpariaeth gyson ac effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY ac maent yn gwneud Cydlynwyr ADY mewn ysgolion a SAB yn gyfrifol naill ai am gyflawni'r tasgau hynny eu hunain neu am sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni gan rywrai eraill.

- | | |
|---------------------|--|
| Cwestiwn 55. | Ydy'r cymwysterau rhagnodedig i fod yn Gydlynwyr ADY a nodir yn y rheoliadau Cydlynwyr ADY drafft yn briodol? |
| Cwestiwn 56. | Ydych chi'n cytuno â'r tasgau y mae'n rhaid i Gydlynwyr ADY eu cyflawni neu drefnu i gael eu cyflawni yn y rheoliadau Cydlynwyr ADY drafft? |

Rhan 4 yr ymgynghoriad: Plant sy'n derbyn gofal

Cyflwyniad

4.1 At ddibenion Deddf 2018, mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol os nad yw dros oedran ysgol gorfodol a'i fod yn derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf 2014, ac nad yw'n berson sy'n cael ei gadw'n gaeth²⁴.

4.2 Mae Deddf 2018 a Deddf 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn newid y dyletswyddau cyfreithiol a roddir ar awdurdodau lleol o ran cymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY. Mae'r sefyllfa o dan y Deddfau hyn yn cael ei hegluro yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r fersiwn ddrafft ddiwygiedig o'r Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya) yn Rhan 6 Deddf 2014 ('y Cod Rhan 6'). Mae'r ddau god yn destun yr ymgynghoriad hwn.

4.3 Mae Rhan 4 yr ymgynghoriad hwn yn rhoi sylw i'r canlynol:

- (a) cynigion ar gyfer rheoliadau am gategoriâu o blant sy'n derbyn gofal na fyddent yn cael eu trin fel plant sy'n derbyn gofal at ddibenion Deddf 2018 ac nad ydynt i gael cynllun addysg personol, a gofynion i awdurdodau lleol benodi Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal;
- (b) Pennod 14 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Cynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal; a
- (c) diwygiadau arfaethedig i'r Cod Rhan 6.

4.4 O dan Ddeddf 2018, mae'r ddyletswydd i benderfynu a oes gan blentyn sy'n derbyn gofal ADY ac i baratoi, cynnal ac adolygu CDU yn cael ei rhoi ar yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau ADY safonol lle mae'r cyfrifoldeb ar yr ysgol a gynhelir a fynychir gan y plentyn, neu'r awdurdod lleol y mae'r plentyn yn ei ardal.

4.5 Mae adran 16 o Ddeddf 2018 yn diwygio adran 83 o Ddeddf 2014 i ddarparu ar gyfer y canlynol:

- (a) bod rhaid i gynllun gofal a chymorth ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal at ddibenion Deddf 2014 gynnwys cofnod o'r trefniadau a wnaed i ddiwallu anghenion y plentyn mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant, i'w alw'n 'gynllun addysg personol'; a
- (b) bod rhaid i unrhyw CDU a gynhelir ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal at ddibenion Deddf 2018 gael ei ymgorffori yn ei gynllun addysg personol.

4.6 Mae'r diwygiadau hyn yn sicrhau, lle mae gan blentyn sy'n derbyn gofal (o fewn yr ystyr sy'n gymwys at ddibenion Deddf 2018) ADY, bod ganddo un cynllun addysg sy'n cwmpasu eu holl anghenion addysg mewn ffordd gyfannol. Dylai hyn wedyn hwyluso cynllunio mwy cyfannol ar gyfer diwallu anghenion y plentyn sy'n derbyn gofal.

²⁴ Adran 15(1) o Ddeddf 2018.

4.7 Ar hyn o bryd, mae angen cynllun addysg personol ar gyfer y rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal, ond yn rhinwedd Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion 2015, yn hytrach na Deddf 2018 ei hun.

(a) Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud

Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud	Pŵer i wneud rheoliadau
<p>Categoriâu o blant sy'n derbyn gofal:</p> <p>(a) na ddylid paratoi cynllun addysg personol ar eu cyfer</p> <p>(b) na ddylid eu trin fel rhai sy'n derbyn gofal at ddibenion Deddf 2018</p>	<p>(a) Adran 83(2B) o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2018)</p> <p>(b) Adran 15(2) o Ddeddf 2018</p>
Gofyniad i awdurdod lleol benodi Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal	Adran 87 o Ddeddf 2014

4.8 Bwriedir arfer y pŵer i ragnodi eithriadau i'r gofyniad am Gynllun Addysg Personol er mwyn parhau â'r sefyllfa bresennol, h.y. byddai'r canlynol yn cael eu rhagnodi fel y categorïau na ddylid paratoi Cynllun Addysg Personol ar eu cyfer:

- y rhai sy'n cael eu mabwysiadu²⁵;
- y rhai sy'n derbyn gofal am seibiannau byr²⁶; ac
- y rhai sy'n derbyn gofal am eu bod mewn llety cadw ieuencid.²⁷

4.9 Gan nad oes gan y categorïau hyn o blant sy'n derbyn gofal Gynllun Addysg Personol, nid yw'n briodol iddynt gael eu gtrin fel plant sy'n derbyn gofal at ddibenion Deddf 2018 (nid oes Cynllun Addysg Personol y gallai unrhyw CDU gael ei ymgorffori ynddo). Felly bwriedir rhagnodi²⁸ plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu mabwysiadu a'r rheini sy'n derbyn gofal am seibiannau byr yn blant nad ydynt yn derbyn gofal ar ddibenion Deddf 2018. (Ni fydd y plant hynny sy'n derbyn gofal o dan Ddeddf 2014 dim ond am eu bod mewn llety cadw ieuencid yn eithriad rhagnodedig o dan y rheoliadau hyn, oherwydd maent wedi cael eu heithrio eisoes at ddibenion Deddf 2018 gan adran 15(1)(b) o Ddeddf 2018.)

4.10 Mae paragraff 1.23 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn nodi'r categorïau ychwanegol o blant sy'n derbyn gofal na fyddent yn cael eu trin fel plant sy'n derbyn gofal at ddibenion Deddf 2018 a'r Cod ADY. O ganlyniad, ni fyddent yn dod o fewn y dyletswyddau penodol yn Neddf 2018 (a darpariaethau cysylltiedig y Cod ADY) mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Yn arbennig, adrannau 18 a 19, sy'n ei

²⁵ Oni bai bod plentyn yn dod o dan reoliad 56 (plant ar remand a phlant dan gadwad) Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015: mae rheoliad 3 y rheoliadau hynny yn darparu nad ydyn tyn gymwys o blant sy'n cael eu mabwysiadu oni bai eu bod yn dod o dan reoliad 56.

²⁶ Nid oes gofyniad i'r categori hwn o blentyn sy'n derbyn gofal gael Cynllun Addysg Personol yn rhinwedd rheoliad 62 Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015.

²⁷ Nid oes gofyniad i'r categori hwn o blentyn sy'n derbyn gofal gael Cynllun Addysg Personol yn rhinwedd rheoliad 57 Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015.

²⁸ Trwy reoliadau a wnaed o dan a15(2) o Ddeddf 2018

gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n gofal am blentyn wneud penderfyniadau am ADY.

4.11 Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, a wnaed o dan Ddeddf 2014, er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod lleol benodi Cysgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae gan y Cydgysylltydd rôl allweddol o ran goruchwylio addysg pob plentyn sy'n derbyn gofal, nid dim ond y rhai sydd ag ADY, a chydweithio i sicrhau bod cymorth addysgol llawn a chynhwysfawr yn cael ei roi i'r plant hynny.

4.12 O ran plant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY, mae disgwyl y bydd Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn goruchwylio a chydgysylltu'r dull aml-asiantaeth sydd ei angen i wneud penderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn sy'n derbyn gofal ADY ac, os felly, rhoi CDU ar waith a fydd yn cael ei ymgorffori yn y Cynllun Addysg Personol. Bydd Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, drwy weithio gydag ysgolion a gweithwyr proffesiynol addysg a gofal cymdeithasol eraill, yn allweddol i sicrhau bod y trefniadau ADY ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gweithredu'n effeithiol, ac mae canllawiau ar y trefniadau hynny yn y fersiwn ddrafft o'r cod ADY.

4.13 O ystyried natur agored i niwed arbennig plant sy'n derbyn gofal ac, mewn termau cyffredinol, y deilliannau addysgol a lefelau cyrhaeddiad is a welir ymhlith y grŵp hwn, mae Llywodraeth Cymru'n glir ynghylch yr angen parhaus i ganolbwyntio ar y cymorth addysgol a roddir i blant sy'n derbyn gofal a'i flaenoriaethu. Mae rôl Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn rhan bwysig o'r strwythur cymorth ehangach hwn. Yn hanesyddol, roedd rôl Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn un statudol; rydym am iddi fod felly eto drwy ddiwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015.

Cwestiwn 57. Ydych chi'n cytuno y dylai rôl Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal fod yn rôl statudol?

(b) Pennod 14 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Cynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal

4.14 Mae pennod 14 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn ymdrin â chynnwys gorfodol CDU ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn cynnwys y ffurflen safonol orfodol ar gyfer CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal.

4.15 Fel y nodir ym mharagraff 14.2 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, rhaid i CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal gaqel ei ymgorffori yng Nghynllun Addysg Personol y plentyn, ac mae canllawiau ar hyn yn y fersiwn ddiwygiedig arfaethedig o'r Cod Rhan 6. Mae cynnwys gorfodol CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal wedi cael ei gynnig yn sgil y gorgyffwrdd posibl â chynnwys tebygol Cynllun Addysg Personol.

4.16 Fel yn achos y cynnwys gorfodol ar gyfer CDU plant a phobl ifanc eraill, mae cynnwys gorfodol CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal yn cynnwys elfennau sy'n

adlewyrchu'r hyn sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2018 ac elfennau eraill sy'n ofynnol gan y Cod. Dyma'r elfennau sy'n ofynnol gan y Cod:

- Adran 2B.2) DDdY i gael ei darparu – manylion unrhyw ddatgymhwyso neu addasu'r Cwricwlwm Cenedlaethol;
- Adran 3A: Cofnod o'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU; ac
- Adran 3B.1) Digwyddiadau neu wybodaeth arwyddocaol sy'n berthnasol i ddeall ADY y plentyn neu berson ifanc a chynllunio DDdY angenrheidiol.

4.17 Er mwyn gwneud cyfeirio'n hwylus, defnyddir yr un rhifau ar gyfer adrannau ac is-adrannau'r CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal â'r un adrannau ac is-adrannau mewn CDU ar gyfer plentyn nad yw'n derbyn gofal (fel y nodir ym Mhennod 13 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY).

Cwestiwn 58. Ydych chi'n cytuno y dylai fod ffurflen safonol ar wahân ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac Ydy'r ffurflen safonol arfaethedig, ynghyd â'r canllawiau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â hi, yn briodol?

(c) Diwygiadau arfaethedig i'r Cod Rhan 6

4.18 Rydym yn cynnig diwygio'r Cod Rhan 6, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2014, i egluro sut mae'r system ADY yn rhyngweithio â'r trefniadau cyffredinol ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r diwygiadau arfaethedig i God Ymafer Rhan 6 yn unig a nid gweddill y Cod. Y diwygiadau hynny yw'r rhai sy'n ymwneud â'r trefniadau newydd ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY a rôl statudol Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ac maent wedi eu nodi'n glir mewn testun glas yn y fersiwn ddrafft o'r cod Rhan 6 diwygiedig.

4.19 Mae'r diwygiadau drafft yn egluro, er enghraifft, sut i ymgynghori CDU mewn Cynllun Addysg Persobol fel rhan o'r cynllun gofal a chymorth Rhan 6 ehangach, sut bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu a pha mor bwysig yw hi bod gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn cydweithio i sicrhau cymorth cynhwysfawr a chytbwys ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Nid yw'r fersiwn ddrafft o'r cod Rhan 6 diwygiedig yn mandadu templed ar gyfer Cynllun Addysg Personol. Yn hytrach, mae'n amlinellu gwybodaeth sy'n rhaid ei chynnwys lle mae'n rhaid i CDU plentyn sy'n derbyn gofal gael ei ymgorffori yn y Cynllun Addysg Personol.

4.20 Nid oes bwriad i newid cynnwys Cynllun Addysg Personol na'r dull o'i ddatblygu o dan Ddeddf 2014. Fodd bynnag, mae newidiadau wedi eu gwneud i'r cod Rhan 6 i egluro sut mae ymgorffori CDU mewn Cynllun Addysg Personol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal sydd ag ADY a chynnwys gorfodol Cynllun Addysg Personol yn yr achosion hyn.

4.21 Mae'r diwygiadau drafft i'r Cod Rhan 6 yn cyfeirio at bwysigrwydd rôl Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal. Fel y nodir ym mharagraffau 4.11 – 4.13 y ddogfen ymgynghori, uchod, cynigir y bydd Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n

Derbyn Gofal yn cael eu dynodi gan yr awdurdod lleol cyfrifol i gydgysylltu Cynlluniau Addysg Personol ac i fynd i'r afael ag anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn ardal yr awdurdod lleol cyfrifol.

Cwestiwn 59. Ydy'r diwygiadau drafft i'r Cod Rhan 6 yn rhoi esboniad clir o'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY a beth mae'r dyletswyddau hyn yn ei olygu yn ymarferol?

Cwestiwn 60. Yn gyffredinol, ydych chi'n cytuno â'r dull a ddefnyddir yn y fersiwn ddrafft o'r Cod Rhan 6 diwygiedig i egluro'r newidiadau deddfwriaethol, yn cynnwys integreiddio cynlluniau addysg personol a CDU a chynnwys gorfodol cynlluniau addysg personol? Ydy'r gofynion a'r disgwyliadau a'r hyn maent yn ei olygu yn ymarferol yn cael eu hesbonio'n glir?

Cwestiwn 61. Ydy'r newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r cod Rhan 6 yn egluro rôl y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn glir o ran goruchwylio'r trefniadau ADY ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol?

Rhan 5 o'r ymgynghoriad: Effaith cynigion

Effaith rheoliadau arfaethedig

5.1 Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf 2018, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr²⁹ yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n rhoi costau manwl ac yn trafod effaith rhoi swyddogaethau ar gyrff perthnasol o dan y Ddeddf.

5.2 Trwy gydol yr ymgynghoriad ar y Cod drafft a'r cynigion ar gyfer rheoliadau o dan Ddeddf 2018, bydd Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymarferwyr i bennu'r effaith bosibl y gallai cynigion eu cael ar gyrff perthnasol, yn ogystal â dysgwyr ag ADY a'u teuluoedd.

5.3 Mae'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i randdeiliaid dynnu sylw Gweinidogion Cymru at unrhyw effeithiau posibl mewn perthynas â'r rheoliadau arfaethedig a'r Cod.

Cwestiwn 62. Pa effaith ydych chi'n rhagweld o ganlyniad i'r rheoliadau arfaethedig?

Effaith ar y Gymraeg

5.4 Hoffem glywed eich barn ar yr effaith y gallai'r cynigion yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r rheoliadau arfaethedig, fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori uchod, ei chael ar y Gymraeg, yn enwedig ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
- ii) sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 63. Pa effaith y byddai'r cynigion yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r rheoliadau arfaethedig yn ei chael ar y Gymraeg yn eich barn chi?

Cwestiwn 64. Sut ydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r rheoliadau arfaethedig er mwyn:

- i) cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?;
- ii) sicrhau nad oes effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

²⁹ <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-memorandwm-esboniadol.pdf>

Cwestiwn 65. Rydym wedi gofyn nifewr o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi cyfeirio'n benodol atynt, nodwch nhw fan hyn.